Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Cynigion Bras ar gyfer 2025








Y ddogfen hon fydd sail ein cyfnod Cyd-ddylunio nesaf pan fyddwn ni'n gofyn i ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill am eu barn.

Am ragor o wybodaeth am Gyd-ddylunio a sut i fod yn rhan ohono, ewch i:

**Cyd-ddylunio ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru | LLYW.CYMRU**

Os oes gennych gwestiynau eraill, e-bostiwch neu sgrifennwch atom:

E-bost: **SFS-codesign@gov.wales**

Cynllun Ffermio Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Os hoffech fersiwn o'r ddogfen hon mewn print mawr, Braille neu iaith arall, gofynnwch.

# Cynnwys


**7 Pennod 1: Crynodeb Gweithredol**

**9 Pennod 2: Cyflwyniad**

9 2.1 Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy

10 2.2 Canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

11 2.3 Dylunio'r Cynllun

11 2.3.1 Rhaid cadw ffermwyr ar y tir

11 2.3.2 Mae cynhyrchu bwyd yn hanfodol i'n gwlad

11 2.3.3 Dylem helpu i adeiladu diwydiant amaeth llewyrchus a chydnerth

12 2.3.4 Dylai unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol sicrhau'r holl ganlyniadau SLM

12 2.3.5 Dylai pob ffermwr gael manteisio ar y Cynllun

12 2.4 Adborth ymgynghoriadau blaenorol

13 2.5 Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**14 Pennod 3: Strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

14 3.1 Safonau Gofynnol Cenedlaethol

15 3.2 Strwythur y Cynllun

**17 Pennod 4: Fframwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

17 4.1 Nodweddion y Cynllun

18 4.2 Cyswllt Ffermio

19 4.3 Gweithredoedd a Gynigir

19 4.3.1 Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol

25 4.3.2 Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maethynnau a gwastraff

33 4.3.3 Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon

40 4.3.4 Diogelu a gwella ecosystem y fferm

43 4.3.5 Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau

53 4.3.6 Lles pobl, anifeiliaid a lle

**57 Pennod 5: Proses y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

57 5.1 Cofrestru fel Ffermwr a’r Meini Prawf ynghylch pwy sy’n gymwys

52 5.2 Adolygiad o Gynaliadwyedd

59 5.3 Dewis Gweithredoedd

60 5.4 Y Contract

61 5.5 Rheolau’r Cynllun

62 5.6 Taliad

62 5.7 Monitro a Chadarnhau

63 5.8 Trefn Archwilio

63 5.9 Cosbau

63 5.10 Adroddiadau a Gwerthuso’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**64 Pennod 6: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Y Cynllun Pontio**

64 6.1 Cyfnod Paratoi a Threialu (2022 – 2024)

65 6.2 Y Cyfnod Pontio (2025 – 2029)

**67 Atodiadau**

# Rhagair

**Dyma'n cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac mae'n bleser cael eu cyhoeddi.**

Un rhan braf o'm swydd yw cael cwrdd â ffermwyr o bob rhan o'r wlad a gallaf ddweud yn gwbl hyderus bod gan Gymru rai o'r ffermwyr gorau yn y byd. Dwi'n deall eich bod yn wynebu heriau lu, o'r newid yn yr hinsawdd i gytundebau masnachu newydd a chostau gwrteithiau uwch yn sgil y rhyfel yn Wcráin. Yr un pryd, mae peth ansicrwydd ynghylch ein cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd yn cymryd lle Cynllun y Taliad Sengl.

Dwi eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn cadw Cynllun y Taliad Sengl tan o leiaf ddiwedd 2023 er mwyn rhoi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd sydd gymaint eu hangen ar y sector. Un o'r rhesymau dros gyhoeddi'r Cynllun bras hwn nawr yw i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ni fydd hynny'n fater hawdd. Y gwir yw bod yn rhaid i ni ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a natur i fod yn siŵr bod gennym sector amaeth cydnerth a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau yfory. Yr argyfyngau hyn yw'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch cyflenwadau bwyd y byd, ond yn yr un modd, mae angen i ffermwyr Cymru barhau i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel a chynnal ei safonau cynhyrchu uchel. Mae'r Cynllun wedi'i lunio i'ch helpu i wneud yr hyn rydych yn ei wneud orau – ffermio'n gynaliadwy a chynhyrchu bwyd mewn cytgord â'r amgylchedd.

Y 'Ffordd Gymreig' hon o ffermio – sy'n rhan hanfodol o'n cymunedau cefn gwlad, yn gydnaws â'n tirweddau ac sy'n gwneud defnydd gofalus o'r adnoddau sy'n rhodd gan natur – yw'r ffordd orau hefyd i ostwng costau i helpu i wneud ffermydd yn fwy proffidiol. Ein henw ar hyn yw Rheolaeth Gynaliadwy ar ein Tir a dyna yn ein barn ni yw'r dull ffermio sydd orau i'n ffermydd, i'n hamgylchedd ac i'n gwlad. Byddaf yn cyflwyno Bil Amaeth i'r Senedd nes ymlaen eleni fydd yn sefydlu Rheolaeth Gynaliadwy ar ein Tir fel fframwaith ar gyfer cefnogi ffermwyr yn y dyfodol. Ond byrdwn y cyhoeddiad hwn yw esbonio beth y bydd yn ei olygu i chi – y ffermwr Cymreig.

Mae'r Cynllun yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i'ch cefnogi i leihau'ch ôl troed carbon a gweithredu dros natur gan barhau yr un pryd i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae ffermio'n hanfodol i Gymru ac mae amaethyddiaeth yn allweddol o ran cynnal y Gymraeg iddi allu ffynnu yn ein cymunedau gwledig. Dwi'n grediniol y gallwn eich helpu, gyda'r gefnogaeth fydd ar gael trwy'r Cynllun, i lwyddo er gwaethaf ansicrwydd yr oes.

Mae'r Cynllun wedi'i lunio gyda'ch cymorth chi a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i weithio gyda ni hyd yma – y miloedd o ffermwyr sydd wedi ymateb i'n tri ymgynghoriad, y rheini sydd wedi gweithio gyda ni trwy'r cyfnod cyd-ddylunio cyntaf a'r rheini sydd wedi'n tywys o gwmpas eu ffermydd.

Dywedoch chi'ch bod am weld Cynllun fyddai ar gael yn rhwydd i ffermwyr actif sy'n bodloni safonau iechyd a lles anifeiliaid ac amgylcheddol da. Dywedoch chi hefyd eich bod am i'r Cynllun eich helpu i leihau'ch allyriadau, i storio carbon, i reoli'ch pridd ac i ofalu am eich anifeiliaid. Gobeithio'ch bod yn gallu gweld ein bod wedi ystyried eich barn a'ch syniadau.

Rwy'n gwybod y bydd rhai ohonoch chi'n siomedig nad ydym yn gallu rhoi manylion cyfraddau talu'r Cynllun ichi. Mae gwybod hynny'n aruthrol bwysig ichi ddeall sut y bydd y Cynllun yn effeithio ar eich busnes. Rwyf am ichi fod yn dawel eich meddwl y bydd y taliadau'n adlewyrchu'r hyn y bydd ffermwr actif yn ei gyflawni a byddwn yn eich cefnogi i barhau ag arferion ffermio cynaliadwy trwy dalu am waith cynnal a chadw a gwaith creu.

Nid hwn yw'r Cynllun terfynol. Byddaf yn ymgynghori ar ein cynigion terfynol flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, rwy'n gofyn ichi eto am eich help i bwyso a mesur ein cynigion yn yr ail gyfnod cyd-ddylunio. Chi sy'n gwybod beth all weithio ar eich fferm ac rydym am ichi weithio gyda ni i ni allu dysgu o'ch profiad a'ch gwybodaeth. Gyda'ch help, gallwn wneud yn siŵr fod y Cynllun yn gweithio er lles ffermwyr Cymru, ein cymunedau gwledig a'r wlad gyfan

Diolch.





**Lesley Griffiths AS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

PENNOD 1

# Crynodeb Gweithredol

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o fanylion am ein cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun). Y Cynllun fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Yn y ddogfen hon, byddwn yn esbonio sut y bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a natur a hefyd am gynhyrchu bwyd.**

Wrth i ni esbonio'r Cynllun sydd gennym yn yr arfaeth, byddwn yn dangos sut mae'r Cynllun yn gwireddu amcanion egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM), fydd yn llywio polisi amaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Y ddogfen hon yw'r cam nesaf yn ein hymrwymiad i drafod ein cynigion a chael adborth iddynt. Y cynigion a ddisgrifiwn yma fydd y sylfaen ar gyfer ein cyfnod cyd-ddylunio nesaf y byddwn yn ei lansio yn yr haf (2022).

## Pennod 1: Cyflwyniad

Rydym yn disgrifio amcanion SLM. Canlyniadau SLM fydd pwrpas ein holl gymorth i ffermwyr yn y dyfodol a byddwn yn ei gyflwyno yn y Bil Amaeth.

SLM fydd sylfaen pob cymorth i ffermwyr gan gynnwys y Cynllun hwn. Byddwn yn dangos hynny trwy atgoffa ffermwyr o egwyddorion y Cynllun a sut mae'r egwyddorion hynny'n cyflawni amcanion SLM. Yr egwyddorion hyn sydd ac a fydd yn llywio trywydd ein meddwl. Byddwn yn esbonio sut mae'r egwyddorion hyn wedi esblygu a darparu fframwaith y Cynllun.

I gau'r bennod hon, byddwn yn rhoi crynodeb o'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriadau gan danlinellu rhai o'r gwersi a ddysgwyd sydd wedi bwydo'r cynnig diweddaraf hwn.

## Pennod 2: Strwythur y Cynllun

Yn y bennod hon, byddwn yn cynnig strwythur y Cynllun. Bydd tair haen i'r Cynllun, bob un yn cefnogi ffermwyr i wireddu canlyniadau SLM, ac yn gwobrwyo ffermwyr sy'n dewis gwneud mwy. Mae'r haen gyntaf ar gyfer pob ffermwr. Haen Opsiynol yw'r ail am weithredu mwy cymhleth, wedi'i dargedu a haen Gydweithredol yw'r drydedd sy'n gofyn am weithredu ar y cyd ag eraill.

Byddwn hefyd yn disgrifio'r fframwaith Deddfwriaethol (y Safonau Trawsgydymffurfio a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol) sy'n sail i'r Cynllun.

## Pennod 3: Fframwaith y Cynllun

Byddwn yn cyflwyno'r gweithredoedd rydym yn cynnig eu cynnwys yn y Cynllun. Caiff y gweithredoedd eu cyflwyno o fewn haenau'r cynllun (Sylfaenol, Opsiynol neu Gydweithredol) gyda manylion y manteision y byddan nhw'n eu gwireddu.

Rydym wedi cyflwyno'r gweithredoedd fel hyn er mwyn eich ysgogi i ymateb yn y cyfnod cyd-ddylunio, yn benodol a ydym wedi'u rhoi yn yr haen gywir.

Byddwn hefyd yn trafod y math a'r amrywiaeth o gymorth y byddwn yn ei gynnig i ffermwyr gyda'r gweithredoedd hyn trwy Cyswllt Ffermio.

Cyflwynir y gweithredoedd o dan y nodweddion sy'n ffurfio'r Cynllun. Mae'r disgrifiad o bob gweithred yn cynnwys cyd-destun ei bwysigrwydd o ran helpu i sicrhau canlyniadau SLM.

Ein syniadau diweddaraf o ran polisi yw'r gweithredoedd sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon ond nid yw'n rhestr derfynol nac yn ddarlun llawn o bob haen. Sail ydynt ar gyfer trafod pellach yn y cyfnod cyd-ddylunio.

## Pennod 4: Proses y Cynllun

Byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer y broses, gan esbonio yr hyn y bydd angen i'r ffermwr ei wneud i ymuno â'r Cynllun a bod yn rhan ohono.

Er bod yr adran hon yn trafod cyfraddau talu, ni fyddwn yn gallu dweud yn y ddogfen hon beth fydd y cyfraddau talu. Bydd y cyfraddau talu'n adlewyrchu'r gwaith modelu a dadansoddi economaidd sydd wrthi'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

## Pennod 5: Pontio i'r Cynllun

Yn y bennod olaf hon, byddwn yn cyflwyno'ch cynlluniau pontio. Bydd y cynlluniau hyn yn disgrifio sut y byddwn yn mynd o'r lle rydyn ni heddiw i lansio'r Cynllun. Rydyn ni'n sylweddoli y bydd yn golygu newid mawr i ffermwyr ac rydyn ni am sicrhau bod y prosesau, y cymorth a'r trefniadau ymgysylltu yn eu lle i ffermwyr allu gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'r Cynllun yn eu cynnig.

Byddwn yn cyflwyno'n cynlluniau ar gyfer Prosiectau Paratoi a Pheilot.

Byddwn hefyd yn disgrifio'r cynlluniau ar gyfer yr ail gyfnod cyd-ddylunio, ac yn esbonio wrth ffermwyr sut i gofrestru a rhoi adborth i'r cynigion fydd yn cael eu disgrifio yn y ddogfen hon.

PENNOD 2

# Cyflwyniad

**Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2019) a *Phapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru)* (2020) rydym yn esbonio sut y bydd egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn fframwaith hirdymor ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol. Bydd yr agwedd holistig hon yn sicrhau bod arferion rheoli tir yn sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol er budd hirdymor y wlad. Bydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a gyflwynir yn y Senedd yn ddiweddarach eleni, yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pwerau angenrheidiol i allu parhau i helpu ffermwyr yng Nghymru i fabwysiadu arferion sy'n cyfrannu at Reoli Tir yn Gynaliadwy.**

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'n cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Y Cynllun fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym am gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, gan adeiladu ar y safonau uchel sydd eisoes yn bod. Byddwn yn esbonio sut y bydd y Cynllun yn helpu ffermwyr i gyfrannu at amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac yn eu gwobrwyo am eu gwaith i leihau eu hôl troed carbon a gwella'r amgylchedd, law yn llaw â chynhyrchu bwyd.

Mae'n hinsawdd yn fwy addas yma yng Nghymru nag yn llawer o rannau eraill y byd ar gyfer cynhyrchu cig coch cynaliadwy o ansawdd uchel. Law yn llaw â'r cymorth uniongyrchol y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i ffermwyr, mae'n datblygu Strategaeth Fwyd Gymunedol i annog pobl i gynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru.

## 2.1 Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r Cynllun wedi'i lunio i gefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sef:

- cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy
- lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu
- gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, gan hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd ac ymgysylltu.

Rhaid cyflawni'r amcanion hyn gyda'i gilydd, weithiau ar yr un tir. Bydd y Cynllun yn gwneud hyn drwy 'rannu tir'. Mae hynny'n golygu sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol drwy fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy. Credwn fod Cymru'n addas iawn ar gyfer y math hwn o ffermio a bydd y Cynllun yn helpu ffermwyr – yn ariannol a thrwy drosglwyddo gwybodaeth a chyngor – i fabwysiadu'r arferion hyn.

## 2.2 Canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r Cynllun yn rhestru'r ystod o bethau y caiff ffermwyr eu gwneud. Ond mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y gweithredoedd hyn a'r canlyniadau y ceisir eu sicrhau. Sef:



### Aer glân

Aer heb fawr o lygredd (gronynnau a nwyon niweidiol wedi'u gwneud gan bobl) gan gynnwys deunydd gronynnol mân, amonia a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan.




### Dŵr glân

Mae'r amgylchedd dŵr (gan gynnwys dyfroedd mewndirol) yn cael ei reoli'n gynaliadwy i gynnal cymunedau iach, busnesau llewyrchus a bioamrywiaeth.



### Gwella mynediad ac ymgysylltu

Mae pobl yn ei chael hi'n haws mynd i gefn gwlad er lles eu hiechyd a'u lles.



### Safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel

Mae anifeiliaid yn iach a chynhyrchiol ac yn byw bywyd o ansawdd da.




### Storio carbon

Creu stociau carbon newydd ar ffermydd a'u gwella.



### Lleihau risg llifogydd a sychder

Mae ffermwyr yn paratoi ar gyfer cyfnodau o lawiad uchel neu isel, gan leihau'r risgiau i'r fferm a chymunedau o lifogydd, sychder ac erydu arfordirol.



### Tirweddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol gwarchodedig

Gwarchod a gwella harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.




### Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae ffermydd yn lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr trwy ddefnyddio tanwydd ac ynni'n effeithlon, defnyddio llai o fewnbynnau allanol a chadw da byw a chnydau cynhyrchiol.



### Ecosystemau cydnerth

Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau gan sicrhau buddiannau er lles bioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd.



### Defnyddio adnoddau'n effeithlon

Mynd ati mewn ffordd gylchol trwy ddefnyddio adnoddau a deunydd cyn hired â phosibl ac osgoi gwastraff.

## 2.3 Dylunio'r Cynllun

Yn ein hymgynghoriad cyntaf, nodwyd pum prif egwyddor y byddem yn eu defnyddio wrth ddylunio'r Cynllun. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r egwyddorion hyn wrth i'n cynlluniau esblygu ac ar sail yr adborth a gawsom, ond maen nhw i raddau helaeth iawn yn union fel yr oeddynt, gan roi canllaw cyson i ni wrth ddylunio'r Cynllun.

### 2.3.1 Rhaid cadw ffermwyr ar y tir

Un o amcanion y Cynllun yw cadw ffermwyr i ffermio, gan sicrhau bod y tir yn cael ei reoli gan y rhai sy'n ei adnabod orau, ond gan eu cefnogi hefyd i addasu a ffynnu. Bydd y Cynllun yn gwneud hyn drwy gefnogi ffermwyr actif a sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol trwy ddulliau rhannu tir a mabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy. Bydd cadw ffermwyr ar y tir yn cynnal hefyd ein cymunedau gwledig, yn creu ac yn atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol ac yn helpu i gynnal cymunedau cydlynol a chydnerth. Bydd hefyd yn gwarchod ac yn cyfoethogi'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau ffermio.





### 2.3.2 Mae cynhyrchu bwyd yn hanfodol i'n gwlad

Bydd y Cynllun yn ein helpu i wireddu'n huchelgais bod ffermwyr Cymru'n arweinwyr byd mewn ffermio cynaliadwy gan ysgwyddo'n hymrwymiadau byd-eang heb yrru cynhyrchiant bwyd i wledydd â safonau is.

Mae ffermio yn teimlo effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun wedi'i lunio i helpu i sicrhau a gwella diogelwch ein cyflenwadau bwyd trwy gefnogi ffermwyr i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol, fel sychder a llifogydd.

### 2.3.3 Dylem helpu i adeiladu diwydiant amaeth llewyrchus a chydnerth

Rydym yn cydnabod bod sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn dibynnu ar fusnesau fferm sy'n economaidd gynaliadwy. Bydd y Cynllun felly'n helpu busnesau fferm i gryfhau, er mwyn iddynt allu cystadlu mewn byd cystadleuol a chyfnewidiol ond yn unol â gallu naturiol eu tir. Bydd y Cynllun yn cynnwys taliad sylfaenol ar gyfer cymryd camau penodol. Bydd hynny'n rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd y mae mawr ei angen ar ffermwyr. Mae llawer o elfennau'r Cynllun wedi'u llunio i helpu ffermwyr i fod yn fwy effeithlon drwy wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau.

### 2.3.4 Dylai unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol sicrhau'r holl ganlyniadau SLM

Bydd y Cynllun yn targedu canlyniadau fel eu bod yn cael eu gwireddu gyda'i gilydd, heb i les y naill fod ar draul y llall. Mae elfennau'r Cynllun wedi'u llunio i helpu ffermwyr i gynhyrchu bwyd a sicrhau hefyd eu bod yn gallu gwneud eu gorau i wireddu pob un o'r canlyniadau hyn.

### 2.3.5 Dylai pob ffermwr gael manteisio ar y Cynllun

Mae'n bwysig bod y Cynllun yn gweithio er lles ffermydd o bob math. Mae'r Cynllun wedi'i lunio fel y gall pob math o fferm fanteisio arno, gan gynnwys tenantiaid a'r rheini sydd â hawliau ar dir comin. Bydd yn agored yn rhwydd i ffermwyr sy'n bodloni safonau iechyd a lles anifeiliaid ac amgylcheddol uchel.

Byddwn yn parhau i roi'r egwyddorion hyn ar brawf gyda ffermwyr a rhanddeiliaid yn ein hail gyfnod Cyd-ddylunio.

## 2.4 Adborth ymgynghoriadau blaenorol

Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gofynnwyd i bobl fynegi barn am ein cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth frwd i uchelgais a chyfeiriad y cynigion. Roedd yr ymatebion hyn[1], a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020, yn cynnig safbwyntiau defnyddiol a'n helpodd gyda cham nesaf y Cynllun. Sef:

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyflwyno llwybr cymalog syml i ymuno â'r Cynllun, i sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Byddai hyn yn caniatáu i bob fferm ddod yn rhan ohono a sicrhau cefnogaeth eang i holl ganlyniadau SLM.
- Mae angen i'r Cynllun fod yn hyblyg er mwyn gallu ei addasu yn ôl cryfderau penodol pob fferm neu ardal.
- Mae angen dangos yn glir i ffermwyr sut mae gweithredoedd y Cynllun yn eu helpu i gyflawni SLM, gan gynnwys drwy gynhyrchu bwyd.
- Roedd cefnogaeth i'r fiwrocratiaeth ysgafnaf a symlaf bosibl, lle bynnag y bo modd, a thema ganolog.

Adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr adborth a gawsom wedyn i'r cyfnod cyd-ddylunio[2] cyntaf, a gwblhawyd ym mis Hydref 2020. Er enghraifft:

- Roedd yn amlwg bod ymatebwyr am i unrhyw Gynllun yn y dyfodol fod yn bartneriaeth go iawn, yn hytrach na bod yn Gynllun haearnaidd.
- Byddai darparu rhestr glir o weithredoedd gorfodol / dewisol gydag esboniad llawn o'u manteision yn help i ffermwyr ddewis yr hyn sydd orau i'w systemau ffermio.
- Dechrau'n fach ac adeiladu ar lwyddiant. Dros amser gall y manteision ddenu'r rheini sy'n cymryd y rhan leiaf i gynyddu'u cyfranogiad.

1 https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-05/cefnogi-ffermwyr-crynodeb-o-ymatebion_1.pdf
2 www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cyd-ddylunio-ffermio-yn-y-dyfodol

## 2.5 Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Rydym wedi adolygu'n cynigion ar sail yr adborth hwn i sicrhau bod y Cynllun yn gweithio er lles ffermwyr Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cynigion hyn yn llawer manylach nag o'r blaen. Bydd yn cynnwys disgrifiad o strwythur y Cynllun, manylion y gweithredoedd arfaethedig, yr hyn rydym yn gofyn i ffermwyr ei wneud, a'r broses ymgeisio.

Yn ogystal â dylunio'r Cynllun ei hun, mae nifer o astudiaethau economaidd yn cael eu cynnal i ddeall effaith y cynigion ar wahanol fathau o ffermydd. Bydd y gwaith hwn yn parhau i lywio'r Cynllun.

Ni fyddwn yn penderfynu'n derfynol ar y Cynllun nes i ni ymgynghori ar ein cynigion manwl a chyflwyno'r dadansoddiad economaidd yn 2023.




PENNOD 3

# Strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Mae'r bennod hon yn disgrifio strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n cyflwyno haenau Sylfaenol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun.**

## Strwythur y Cynllun




## 3.1 Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Yn y *Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth (Cymru)*, rydym yn esbonio'n cynigion i ddod â deddfwriaeth amaethyddol ynghyd mewn set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan grisialu a chyfuno rheoliadau amaethyddol mewn un darn o ddeddfwriaeth. Gwnaethom ni gynnig bod y Safonau hyn yn y lle cyntaf yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gofynion Trawsgydymffurfio. Byddai hynny'n golygu cadw'r gofynion cyfreithiol sydd gennym eisoes.

Er mwyn ei gwneud yn haws i ffermwyr ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith, rydym am gyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Credwn hefyd y dylai mesurau gorfodi fod yn gymesur â difrifoldeb y drosedd ac osgoi troi ffermwyr yn droseddwyr am dramgwyddau llai difrifol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y cynigion hyn yn gymhleth a rhaid eu hystyried yn ofalus.
Y safonau fydd sylfaen y Cynllun a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu creu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r Cynllun.

## 3.2 Strwythur y Cynllun

Mae tair haen i'r Cynllun.

### Gweithredoedd Sylfaenol

Rhaid i ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun gynnal yr holl Weithredoedd Sylfaenol. Byddan nhw'n helpu ffermydd i ddod yn fwy cynaliadwy. Dylen nhw fod o fewn cyrraedd rhwydd i'r rhan fwyaf o ffermwyr a dylen nhw allu eu hintegreiddio â'u harferion ffermio presennol.

Byddwn am roi cymaint o hyblygrwydd ag y gallwn i ffermwyr gynnal y Gweithredoedd Sylfaenol yn y ffordd sydd orau i'w fferm ac sy'n sicrhau'r canlyniadau. Bydd angen esbonio'n glir beth sydd angen ei wneud i gael taliad. Rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai ffermydd yn gallu cynnal pob Gweithred Sylfaenol o'r cychwyn cyntaf (er enghraifft, oherwydd natur y fferm, ei thopograffeg neu gontractau rheoli tir). Ond, er y bydd rhai eithriadau, fel man cychwyn, dylai pob fferm yn y Cynllun fynd i'r afael â phob Gweithred Sylfaenol.

Caiff taliad sylfaenol ei dalu i ffermwyr am gynnal y Gweithredoedd Sylfaenol. Bydd cyngor ac arweiniad yn cael eu paratoi i'w helpu yn hyn o beth. Rydym yn dal wrthi'n meddwl sut i gyfri'r taliad a bydd hynny'n rhan o ymgynghoriad terfynol y Cynllun.

Y Gweithredoedd hyn fydd y sylfaen i ffermwr allu mynd yn eu blaenau a gwneud mwy drwy ddewis gweithredoedd ychwanegol a derbyn taliadau ychwanegol.

### Gweithredoedd Opsiynol

Gweithred ar gyfer targedu mater penodol sy'n ymwneud â thir neu nodwedd o'r dirwedd y gallai ffermwr ddewis rhoi sylw iddo. Bydd llawer o ffermwyr eisoes yn cynnal rhai o'r gweithredoedd hyn.

Bydd ffermwyr yn cael dewis pa gamau y maen nhw am eu cymryd yn yr haen hon a chael eu talu am eu cymryd (hyn ar ben y taliad ar gyfer cynnal y Gweithredoedd Sylfaenol). Bydd gan ffermwyr fwy o hyblygrwydd ynghylch pa rai o'r rhain y maent am eu cynnal a sut.

Bydd ffermwyr yn cael eu helpu i ddeall yr opsiynau y mae'n rhaid iddynt ddewis o'u plith a'r incwm y gallant ei gynhyrchu, drwy'r broses benderfynu (a ddisgrifir ym Mhennod 4).

### Gweithredoedd Cydweithredol

Bydd disgwyl i nifer o ffermwyr neu reolwyr tir gydweithredu i gynnal y gweithredoedd hyn, ar raddfa tirwedd, dalgylch, neu'n genedlaethol. Rydym am ganolbwyntio ar elfennau o'r Cynllun sy'n esgor ar fwy o fuddiannau trwy gydweithredu na phe baent yn cael eu cynnal gan un ffermwr yn unig ac sydd angen nifer o bobl i sicrhau canlyniad penodol. Mae'r rhain yn gofyn am gydweithredu, gan sicrhau mwy o werth na'r cymorth a roddir i ffermwyr unigol.

Er enghraifft, cydweithredu i:

- greu cynefinoedd sy'n cysylltu â'i gilydd ar draws tirweddau, gan sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl ar raddfa tirwedd drwy weithredoedd ar y cyd priodol
- datblygu cyfleoedd o fewn cadwyni cyflenwi drwy sefydlu cymdeithasau cynhyrchwyr neu fentrau cydweithredol, gan gyd-fuddsoddi mewn seilwaith, neu i greu brand unedig ar gyfer marchnata a hyrwyddo
- rhannu gwybodaeth ac arloesedd drwy gysylltu ffermwyr, y byd academaidd a/neu sefydliadau eraill â'i gilydd ar gyfer ymchwil a datblygu neu drwy rannu arferion.

Lle bo hynny'n bosibl, bydd gweithredoedd cydweithredol yn adeiladu ar y camau y mae ffermwyr eisoes yn eu cymryd yn unigol o dan y Cynllun ac yn ychwanegu at eu gwerth. Efallai y byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y camau hynny y mae'n ofynnol iddynt gael eu cynnal ar y cyd, neu a fyddai'n fwy buddiol eu cynnal ar y cyd.

Bydd gweithredoedd ar y cyd yn gofyn yn aml ar i ffermwyr, rheolwyr tir, ac o bosibl unigolion eraill nad ydynt yn rhan o'r Cynllun gymryd rhan mewn prosiectau ar y cyd. Ond bydd angen i o leiaf ddau ffermwr fod yn rhan o'r prosiect iddo gael ei ystyried yn brosiect cydweithredol. Mae'n debygol y bydd angen sefydliad, hwylusydd neu strwythur cymorth trydydd parti arnynt hefyd i ddod â gwahanol ffermwyr, rheolwyr tir ac unigolion at ei gilydd er mwyn iddynt allu gweithredu'n llwyddiannus.

| Lefel/Haen | Disgrifiad | Taliad a chymorth |
|---|---|---|
| 1. Safon Ofynnol Genedlaethol | Gofynion cyfreithiol, i bob fferm. | Dim taliad<br>Cyngor ac arweiniad<br>Sancsiynau sifil yn y dyfodol ac o bosibl, cosbau'r Cynllun |
| 2. Sylfaenol | Rhaid i ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun gynnal yr holl Weithredoedd Sylfaenol. Byddant yn helpu ffermydd i fod yn fwy cynaliadwy ac yn sylfaen iddynt allu gwneud mwy. Rhaid cynnal yr holl weithredoedd cymwys i gael ymuno â'r cynllun. | Taliad Sylfaenol<br>Taliadau Cyfalaf<br>Cymorth Technegol<br>Defnyddio arfau<br>Cyngor ac arweiniad |
| 3. Opsiynol | Gweithredoedd lefel uwch, yn adeiladu ar y rhai sylfaenol. Byddant yn fwy cymhleth ac efallai y bydd angen eu haddasu ar gyfer fferm neu ardal. | Taliadau Refeniw a/neu Gyfalaf<br>Cymorth Technegol<br>Defnyddio arfau<br>Cyngor ac arweiniad |
| 4. Cydweithredol | Wedi'u hanelu i gyflawni blaenoriaethau mwy penodol sydd ag angen hyblygrwydd o ran sut i'w cyflawni a chyfuniad o weithredoedd i sicrhau'r manteision gorau. Y rhain fydd yn gofyn am gyfraniad mwyaf y ffermwr. | Taliadau refeniw a/neu gyfalaf<br>Help technegol<br>Cyngor a chymorth |

PENNOD 4

# Fframwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Bydd y Cynllun yn cefnogi arferion ffermio cynaliadwy. Rydym am weithio mewn partneriaeth â ffermwyr drwy eu talu am gymryd camau sy'n esgor ar ganlyniadau. Bydd y canlyniadau hyn o les i fusnes y fferm yn ogystal ag i'r amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid a chymdeithas (yn unol ag egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy). Mae'r bennod hon yn nodi beth yw'r camau hynny.**

Gan gymryd bod tystiolaeth y bydd y camau hyn yn sicrhau canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM), telir i ffermwyr am eu cynnal cyn belled â'u bod yn gwneud hynny'n gyson. Mae'r gweithredoedd hyn eisoes yn cael eu cynnal ar lawer o ffermydd ledled Cymru ac maent wedi'u cynllunio i helpu ffermwyr i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau ac i weithio'n dda yn eu hamgylchedd. Yn aml iawn hefyd, gall cynnal y weithred yn gyson helpu'r busnes fferm i leihau ei gostau.

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio fel y gall pob math o fferm fanteisio arno, gan gynnwys tenantiaid, a dylai pob fferm gael dewis y ffordd y mae am gynnal y weithred dan sylw. Y ffermwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod ganddo reolaeth lwyr ar y tir, ac unrhyw ganiatâd sydd ei angen gan berchennog y tir.

Dyma fraslun o'r Cynllun. Rydym am archwilio'r gweithredoedd hyn gyda ffermwyr er mwyn gwneud yn siŵr y gall y Cynllun weithio ar lawr gwlad. Felly, efallai y byddwn yn newid rhai o'r gweithredoedd ar sail yr ymateb a gawn drwy ein hail gyfnod cyd-ddylunio, ac efallai y byddwn yn ychwanegu gweithredoedd yn y dyfodol. Er mai manylion amodol yw'r manylion a nodir yma, gobeithiwn ein bod yn rhoi syniad da i ffermwyr o ofynion y Cynllun a'r camau y bydd angen iddynt eu cymryd, neu ddewis eu cymryd i gael taliad o 2025 ymlaen.

## 4.1 Nodweddion y Cynllun

Mae gweithredoedd y Cynllun wedi'u rhannu'n bum nodwedd. Maen nhw'n dangos yr amrywiaeth o ffyrdd rydym am gefnogi ein ffermwyr i'w helpu i sicrhau ystod eang o ganlyniadau wrth gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy:

1. cydnerth a chynhyrchiol
2. lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maethynnau a gwastraff
3. lleihau allyriadau a dal a storio cymaint o garbon â phosib
4. diogelu a gwella ecosystem y fferm
5. lles pobl, anifeiliaid a lle.

## 4.2 Cyswllt Ffermio

Byddwn yn cynnig cymorth drwy hyfforddiant a thrwy rannu gwybodaeth ac arloesedd rhwng ffermwyr. Darperir hyn drwy raglen Cyswllt Ffermio newydd fydd yn cynnwys gwasanaeth cynghori wedi'i ailwampio i wneud yn siŵr bod y cyngor a roddir i ffermwyr yn diwallu eu hanghenion yn y dyfodol. Byddwn yn dysgu oddi wrth y model Cyswllt Ffermio presennol ac yn ei addasu i sicrhau bod ffermwyr yn teimlo'n hyderus eu bod yn cael y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i bontio'r newid a chynnal gweithredoedd y Cynllun.

Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad diweddar gan Cyswllt Ffermio, bydd cymorth yn y dyfodol yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar sut i ymuno â'r Cynllun; help â'r broses ymaelodi; a chanllawiau ar sut i gynnal y gweithredoedd. Bydd hefyd yn dangos y manteision a ddaw o fod yn rhan o'r Cynllun a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnwys hefyd Raglen o Ddatblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) i sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cefnogi i ddysgu a datblygu. Bydd cyrsiau hyfforddi'n debygol o gael eu cynnig, naill ai yn bersonol, fel gweminarau neu drwy e-ddysgu i roi hyblygrwydd i'r ffermwr o ran pryd a ble y gall fanteisio ar gyfleoedd DPP.

Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig hefyd mewn sesiynau hyfforddi ymarferol ar y fferm a sesiynau trosglwyddo gwybodaeth gan y Rhwydwaith o Ffermydd Arddangos. Byddwn yn eu defnyddio ar gyfer treialu a dangos gweithgareddau ac arferion. Mae ffermwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i ddysgu ar y fferm a chefnogaeth cyd-ffermwyr ac yn eu gweld fel ffordd dda o ledaenu arfer da. Felly, rydym am iddo barhau.

Hefyd, bydd Cyswllt Ffermio'n rheoli Rhaglen Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Bydd yn dysgu academyddion sy'n cynnal prosiectau ymchwil ym maes ffermio am y dechnoleg a'r arloesedd diweddaraf. Bydd Cyswllt Ffermio yn sicrhau bod ffrwyth unrhyw ymchwil academaidd yn cael eu trosglwyddo mewn ffordd hawdd ei deall, fel yr Hwb Cyfnewid Gwybodaeth presennol, ac yn darparu hefyd gronfa ddata ymchwil helaeth.

Bydd Cyswllt Ffermio yn cyfeirio ffermwyr at gynghorwyr, contractwyr a mentoriaid dibynadwy ac o ansawdd uchel i ategu'r cyngor, yr arweiniad a'r arbenigedd technegol fydd yn cael eu cynnig. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i ddarparu deunydd hyrwyddo a marchnata i ffermwyr y Cynllun iddynt gael manteisio ar frandiau ac ymgyrchoedd hyrwyddo'r diwydiant.

Rydym yn ymrwymo i roi'r holl offer sydd eu hangen arnynt i ffermwyr, drwy'r Cynllun a Cyswllt Ffermio, i'w helpu i fod yn arweinwyr byd ym maes cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Byddwn yn defnyddio'n rhaglen gyd-ddylunio i ddatblygu ein cynigion ar gyfer Cyswllt Ffermio gyda'r nod o sicrhau bod gennym system gymorth sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i ffermwyr ac sy'n gost-effeithiol i'r diwydiant.

# 4.3 Y gweithredoedd a gynigir

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| (S) Gweithred Sylfaenol | (C) Gweithred Gydweithredol |
| (O) Gweithred Opsiynol | (CFf) Cymorth Cyswllt Ffermio |

## 4.3.1 Ffermydd cydnerth a chynhyrchiol

Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr i'w helpu i addasu'n llwyddiannus i newidiadau yn yr amgylchedd neu'r farchnad. Byddwn yn eu helpu i wneud eu busnesau fferm yn fwy cydnerth. Bydd hynny'n darparu cyfleoedd i'r economi wledig ehangach a swyddi dibynadwy tymor hir sy'n gofyn am sgiliau a phrofiad.

**Rheoli a gwella perfformiad y fferm trwy fesur a monitro**



Rydym am weld diwydiant amaeth llewyrchus a chydnerth. Mae busnesau fferm cynaliadwy yn hanfodol i lwyddiant y diwydiant a'r Cynllun.

Mae lle bob amser i bob busnes, gan gynnwys busnes fferm, wella ar ei waith. Hynny am fod llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar ei berfformiad o dan reolaeth y ffermwr. Drwy fesur eu perfformiad yn rheolaidd, gall ffermydd gymharu eu hunain â'u perfformiad yn y gorffennol ac â pherfformiad eraill yn y diwydiant. Drwy wneud, a nodi lle y gellir gwneud gwelliannau, gall busnesau leihau'u costau a dod yn fwy cynaliadwy drwy ddefnyddio'u hadnoddau'n well.

Credwn y gallai annog ffermwyr i fabwysiadu meincnodi sylfaenol gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol syml, arwain at newid sylweddol ym mherfformiad ffermydd, gan gynyddu gallu ffermydd i addasu i newid a gwella eu heffaith ar yr amgylchedd. Er enghraifft, bydd cael anifeiliaid iachach, gwneud y defnydd gorau o borfa, bod yn llai dibynnol ar wrteithiau a defnyddio maethynnau y fferm yn well yn arbed arian i ffermydd ac o fudd i bridd a dŵr.

Rydym am helpu holl ffermwyr y Cynllun i ddeall perfformiad eu fferm, yn ariannol ac o ran cynaliadwyedd. I wneud hynny, byddwn yn mabwysiadu un set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer pob sector ffermio ynghyd â set arall ehangach ar gyfer y diwydiant cyfan. Bydd hyn yn ei gwneud yn glir beth sydd angen i ffermwyr ei fesur a byddant yn gallu cymharu'u canlyniadau ag eraill yn eu sector. Bydd ein DPAau yn canolbwyntio ar ffactorau busnes, cynhyrchu ac amgylcheddol ac yn defnyddio data sy'n gyfarwydd ac yn hygyrch i ffermwyr. Yn ystod y cyfnod cyd-ddylunio byddwn yn edrych sut mae'r dangosyddion hyn yn gweddu i'r gwahanol fathau o ffermydd a systemau ffermio yng Nghymru.

Nid mater o farnu na beirniadu ffermwyr yw hyn ond rhoi mwy o wybodaeth iddynt allu bod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol. Bydd Gweithred Sylfaenol sy'n gofyn i bob fferm gynnal hunanasesiad unwaith y flwyddyn ar sail DPAau ei sector a'r diwydiant (dau fesul sector neu dri i gyd) yn:

- rhoi man cychwyn i ffermwyr ddeall perfformiad eu busnes, gan ganiatáu iddynt ymchwilio ymhellach os dyna'u dymuniad a gwella eu perfformiad.
- caniatáu i ffermwyr ddeall a yw'r newidiadau y maent yn eu gwneud ar lawr gwlad wedi cael effaith gadarnhaol (neu beidio) gyda thystiolaeth o hynny;
- galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy a lleihau eu hôl troed carbon, gan gysylltu â gweithredoedd eraill y Cynllun fel gwella iechyd anifeiliaid neu ddefnyddio porfa'n well.
- dechrau casglu data i hyrwyddo cynaliadwyedd eu busnes a ffermydd ledled Cymru
- man cychwyn defnyddiol i ffermwyr fynd eu blaenau a gwneud mwy.

(S) Bydd pob ffermwr yn cynnal asesiad unwaith y flwyddyn ar sail dangosyddion perfformiad allweddol y sector a'r diwydiant (dau fesul sector neu dri i gyd).

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnig help i ffermwyr i:

- gasglu'r data sydd eu hangen i gynnal hunanasesiad
- gwneud gwelliannau, ar sail canlyniad yr hunanasesiad
- meincnodi er mwyn ymchwilio'n ddyfnach i wella perfformiad a chynaliadwyedd y fferm.



**Arallgyfeirio, gwahaniaethu ac arbenigo i ychwanegu at werth**



Bydd y Cynllun yn helpu busnesau fferm i arallgyfeirio i arferion ffermio cynaliadwy ychwanegol. Bydd hyn yn eu helpu i wrthsefyll y newidiadau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd, a thrwy'r marchnadoedd.

Cig coch a llaeth yw'r prif sectorau ffermio yng Nghymru. Bydd arallgyfeirio i sectorau amaethyddol amgen, fel cnydau neu dda byw newydd/gwahanol (lle medrir), neu ddatblygu cynnyrch sy'n bodoli eisoes ar gyfer marchnadoedd arbenigol yn cynnig cyfleoedd i gynnal neu gynyddu incwm ffermydd a chynnig rhagor o waith yng nghefn gwlad. Er enghraifft, dim ond ychydig o dir amaethyddol a ddefnyddir gan y sector garddwriaeth yng Nghymru a dim ond nifer gymharol fach o fusnesau a geir ynddo. Mae potensial i ni dyfu mwy o'r llysiau rydyn ni'n eu bwyta yma yng Nghymru a bydd y Cynllun yn cefnogi hyn trwy dargedu buddsoddiad i ehangu a datblygu sgiliau yn y sector hwn.

Bydd ffermwyr yn cael eu cyfeirio at gymorth ac arweiniad iddynt allu ystyried a chynllunio mentrau amgen i ddod â ffrwd incwm newydd i gryfhau busnes eu fferm. Byddwn hefyd yn helpu busnesau fferm i ymateb i gyfleoedd yn eu marchnadoedd. Gall hyn gynnwys eu cefnogi:

- i ddeall y farchnad, y cyfleoedd ynddi a'r llwybrau iddi (naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi)
- ychwanegu at werth cynhyrchion da byw os oes galw amdanynt yn y farchnad
- cynhyrchu mwy o gynnyrch arbenigol
- datblygu cyfleoedd gwerthu uniongyrchol e.e. arlwyo neu siopau fferm
- datblygu busnesau garddwriaeth newydd ac ehangu'n gynaliadwy y rhai sy'n bod eisoes drwy dechnoleg a thechnegau newydd
- cynhyrchu pren yn gynaliadwy a'i werthu
- darparu hyfforddiant mewn arferion ffermio a chrefftau gwledig
- agor cyfleusterau er lles y gymuned a busnesau lleol.

Bydd cynhyrchu mwy o amrywiaeth o fwyd a chynhyrchion, er enghraifft tyfu cnydau newydd ac amgen fydd yn gallu gwrthsefyll hinsawdd y dyfodol, a manteisio ar y galw cynyddol gan ddefnyddwyr am gynaliadwyedd yn helpu:

- ffermwyr i ddatblygu marchnadoedd newydd/amgen ac ychwanegu at werth
- cefnogi bwyd lleol, gan gadw gwerth yn eu cymunedau
- adeiladu system fwyd fwy amrywiol all gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn well.

Bydd hyn yn ategu ein Strategaeth Bwyd Cymunedol a fydd yn annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol fel rhan o'n hymdrech i greu Cymru wyrddach gyda chymunedau cryf.

(O) Bydd ffermwyr yn cael cymorth i dyfu cnydau er mwyn prynu llai o borthiant.

(O) Byddwn yn cynnig cymorth i fusnesau garddwrol newydd neu i fentrau garddwrol newydd o fewn busnes fferm sy'n bod eisoes.

(O) Byddwn yn helpu prosiectau arloesi sy'n treialu technegau neu dechnolegau newydd ar lefel ymarferol, gan roi sylw arbennig i gynaliadwyedd, gwneud y farchnad yn fwy amrywiol a gwneud y fferm yn fwy cydnerth.


(C) Bydd cymorth i gydweithredu ar gael i helpu ffermwyr i weithio gyda'i gilydd i werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid ac i ychwanegu gwerth.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn:

- cynnig help i ddeall marchnadoedd a llwybrau i'r farchnad trwy werthu uniongyrchol. a'r gadwyn gyflenwi
- hyrwyddo cyfleoedd i arallgyfeirio a helpu ffermwyr i fanteisio arnyn nhw
- helpu ffermwyr i weithio gyda'i gilydd i brynu porthiant mor lleol â phosibl
- gwella sgiliau a gwybodaeth, gan gynnwys ar gyfer busnesau garddwrol, gan ganolbwyntio ar dwf a chynaliadwyedd
- cynnig cymorth busnes a chyngor technegol i'r sector garddwrol, i'w helpu i fod yn fwy effeithlon ac i leihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu cnydau
- cynnwys rhaglen ddysgu er mwyn i unigolion o'r un anian sydd â busnesau garddwrol weithio gyda'i gilydd yn lleol.



**Lleihau'r risg o ddal a lledaenu clefydau**



Byddwn yn helpu ffermwyr i fynd ati'n rhagweithiol i atal a rheoli clefydau gan ddefnyddio'r egwyddor *"gwell atal na gwella clwy"*. Byddwn yn gosod safonau bioddiogelwch ac yn helpu ffermwyr i'w bodloni.

Mae bioddiogelwch yn golygu'r mesurau a gymerir i sicrhau nad oes clefydau'n dod i'r fferm ac nac yn lledaenu ohoni. Y nod yw lleihau'r siawns o ledaenu clefyd. Mae'n rhan bwysig o reoli risg a chadw anifeiliaid, cnydau a phobl yn ddiogel. Gall clefydau ddod i'r fferm fel a ganlyn:

- stoc newydd neu stoc sy'n dychwelyd
- cyswllt ag anifeiliaid cymdogion
- bywyd gwyllt ac anifeiliaid eraill
- yr amgylchedd
- bwyd anifeiliaid, tail a slyri
- cerbydau, offer a phobl.

Gall clefydau gael effeithiau ariannol difrifol a hirdymor ar broffidioldeb fferm. Mae rhai clefydau'n gallu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl ac felly mae bioddiogelwch da yn helpu i ddiogelu'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ar y fferm. Dylai bioddiogelwch da arwain at:

- ddefnyddio meddyginiaethau'n well, gan symud oddi wrth y rhai sy'n trin problemau (gwrthfiotigau) i'r rhai a ddefnyddir yn bennaf i'w hatal (brechlynnau) a defnyddio cyffuriau atal llyngyr (yn ofalus)
- leihau'r risg o ledaenu clefydau
- anifeiliaid a chnydau mwy cynhyrchiol
- gwella lles anifeiliaid
- ffermydd a bwyd mwy diogel.

Mae wastad risg, wrth ddod ag anifail newydd i'r fferm, y gallwch ddod â chlefyd hefyd. Gall hyd yn oed anifeiliaid sy'n ymddangos yn iach fod yn ffynhonnell haint newydd. Gall gwybod hanes meddygol yr anifail a'r fuches/diadell y mae'n dod ohoni helpu ffermwyr i reoli'r risg wrth gyflwyno anifeiliaid newydd. Yn ddelfrydol, dylai anifeiliaid ddod o fuches/diadell sy'n gallu profi ei bod yn ddi-glefyd (neu'n risg isel) ac sydd wedi cael profion cyn symud negyddol diweddar am glefydau penodol. Mae'n arfer gorau hefyd cadw anifeiliaid sy'n dod i'r fferm mewn cyfleuster ynysu priodol a'u harchwilio'n ddyddiol am unrhyw arwyddion o salwch. Mae'r cyfnod ynysu hwn hefyd yn gyfle da i brofi a/neu frechu'r anifeiliaid. Byddwn yn ymchwilio gyda ffermwyr sut y gall y cynllun eu helpu i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i brynu'n wybodus ac ar sail risg.

(S) Bydd angen i bob fferm gadw at yr holl fesurau bioddiogelwch angenrheidiol. Sef:

- mannau golchi a diheintio i bobl allu glanhau eu dillad, offer a cherbydau wrth iddynt gyrraedd/gadael y fferm a mannau cadw da byw
- mae terfynau'r tir i gyd yn ddiogel, i rwystro stoc rhag crwydro
- mae storfa ddiogel benodol i gadw stoc marw. Mae'n hawdd ei glanhau a'i diheintio. Nid yw'n agos i dda byw, porthiant na dŵr.
- mae storfeydd porthiant yn ddiogel, i gadw bywyd gwyllt a fermin draw
- mae rhaglen rheoli plâu wedi'i llunio, sy'n cynnwys y defnydd cyfrifol o fioladdwyr.

(O) Caiff ffermwyr eu gwobrwyo am godi ffens a pherth 3 metr o led o gwmpas ffin y fferm (yn ôl y gofyn) i rwystro stoc cymdogion rhag dod i gysylltiad.

(O) Mae anifeiliaid newydd yn cael eu hynysu am o leiaf 6 niwrnod cyn cymysgu â'r stoc.

(C) Byddwn yn gweithio â'r diwydiant i ymchwilio sut gall y Cynllun gyflwyno trefn sy'n dangos bod anifeiliaid sy'n dod i'r fferm o uned arall yn ddiogel i leihau'r risg o gyflwyno clefyd.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio'n cynnig cyngor i ffermwyr ar sut i osgoi lledaenu clefydau i'w ffermydd.

## 4.3.2 Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maethynnau a gwastraff

Byddwn yn helpu ffermydd i ddefnyddio cyn lleied o fewnbynnau â phosibl ac i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau er mwyn lleihau eu colledion i'r amgylchedd, gwella ansawdd aer a dŵr a'u gwneud yn fwy effeithlon a phroffidiol.

**Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial trwy rheoli maethynnau a phrofi'r pridd**




Mae pridd yn adnodd naturiol aruthrol o bwysig, ac rydym am i bob ffermwr ddeall sut orau i'w reoli er lles eu busnes a'r amgylchedd. Mae cymaint ag 80% o'r maethynnau sy'n cael eu gwasgaru ar y tir yn cael eu colli i'r aer neu ddŵr oherwydd problemau fel pridd wedi'i gywasgu, gorwasgaru a lefel pH y pridd. Drwy wella iechyd pridd a gwneud y defnydd gorau o faethynnau, gall ffermwyr:

- arbed arian
- gwella ansawdd aer a dŵr trwy golli llai o faethynnau ar ffurf llygredd
- lleihau risg llifogydd a dygymod yn well â chyfnodau sych drwy osgoi cywasgu'r pridd er mwyn iddo allu cadw mwy o ddŵr
- lleihau ôl troed carbon drwy storio mwy o garbon mewn priddoedd.

Drwy brofi eu priddoedd a dilyn proses cyfrif maethynnau, bydd gan ffermwyr yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus. Gall y penderfyniadau hyn gynnwys dewis o restr y Cynllun o gamau Opsiynol i'w helpu i wella strwythur eu pridd (er enghraifft, bras-droi'r tir) neu wneud y defnydd gorau o dail a gwrtaith (gwasgaru manwl).

Bydd cyfri'r maethynnau sylfaenol a phrofi pridd yn Weithred Sylfaenol. Drwyddo, daw'r ffermwr i ddeall ei bridd a gofynion ei gnydau. Bydd profion pridd yn cael eu cynnal gan ddefnyddio dull dwbl, gyda ffermwyr yn profi ynghyd â phrofion proffesiynol.

Bydd profion proffesiynol yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r fferm ar ddechrau a diwedd cyfnod y contract. Byddan nhw'n help i ddilysu profion y ffermwr ac yn dystiolaeth o'r hyn sydd wedi'i wneud i wella cyflwr y pridd. Bydd hefyd yn hysbysu Dangosyddion Perfformiad Allweddol y fferm o ran Cydbwysedd Maethynnau a Defnydd Effeithiol o Nitrogen.

Byddwn yn ystyried gyda ffermwyr yn ystod y cyfnod cyd-ddylunio sut orau i'w helpu i gynnal y gweithredoedd hyn. Bydd hynny'n cynnwys sut orau i gael gafael ar yr arbenigedd sydd ei angen i brofi pridd, cael hyd i ddull syml a hawdd ei ddiweddaru ar gyfer cyfri maethynnau a sut i gefnogi ffermwyr i ddefnyddio technoleg i gasglu data'r byd go iawn i wneud penderfyniadau gwybodus gwell ynghylch pryd i wasgaru tail a gwrtaith. Rydym hefyd am glywed hefyd beth arall ym marn y ffermwr y dylai'r prawf ei gynnwys (prawf ffermwr a/neu'r prawf broffesiynol), gan ystyried ei gost a'i ymarferoldeb.

(S) Cynnal profion (prawf ffermwr a phrawf proffesiynol) wrth ymuno â'r Cynllun ac adeg adnewyddu'r contract, i gynnwys cyfuniad o:

- brofion Nitrogen (N), Potasiwm (P), Ffosfforws (K), Carbon a pH
- mesurau biolegol e.e. eDNA, resbiradu, cyfrif rhywogaeth 'brocsi' (mwydod)
- asesiad ffisegol e.e. cyfradd ymdreiddio, pwysau'r pridd neu Werthusiad Gweledol o Strwythur y Pridd (VESS).

(S) Cyfrif maethynnau a chasglu tystiolaeth ynghylch N, P, K ,C a pH.


(O) Ceir gweithredoedd opsiynol sy'n effeithio ar ddefnydd y fferm o faethynnau a chyflwr y pridd drwy'r ddogfen hon, gan gynnwys gweithredoedd i:

- ategu'r nitrogen a wasgerir trwy ddefnyddio planhigion bachu nitrogen (porfeydd cymysg, cylchdro plannu, cnydau gorchudd)
- sefydlu porfeydd a chnydau â gwreiddiau amrywiol eu proffil (porfeydd cymysg, cylchdroi cnydau, cnydau gorchudd)
- gwella bioleg y pridd (plannu amrywiaeth o blanhigion, pori a gorffwys, bras-droi neu ddim troi, defnyddio planhigion lladd llyngyr i leihau'r angen am feddyginiaeth, rheoli cynefinoedd).


(C) Cefnogi ffermwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn dalgylch i wella ansawdd dŵr.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn helpu trwy:

- samplu pridd
- rhoi cyngor technegol i ddehongli canlyniadau a'i ddefnyddio er lles y fferm a'r amgylchedd
- dysgu gan ffermwyr am iechyd pridd.



**Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tail a magu ffrwythlondeb**




Bydd plannu'r un cnwd yn yr un cae bob blwyddyn yn blingo'r pridd o'r un maethynnau bob blwyddyn. Mae cylchdroi cnydau yn gwella iechyd y pridd, yn rhoi'r maethynnau yn ôl yn y pridd ac yn helpu i leihau plâu a chwyn rhag cronni.

Gall cylchdro fod mor syml â rhoi seibiant i'r tir rhag un cnwd neu ddefnyddio cnwd penodol sy'n magu a chynnal ffrwythlondeb a strwythur y pridd (tail gwyrdd). Mae cylchdroi cnydau yn ffordd effeithiol iawn o gadw pridd yn ffrwythlon a rheoli plâu cnydau. Mae hefyd yn helpu i wneud y fferm yn fwy cydnerth drwy fod yn llai dibynnol ar un fenter. Gan ddibynnu ar y cnwd, gall hefyd fod o fudd i fioamrywiaeth, y dirwedd, ansawdd dŵr ac ôl troed carbon y fferm. Gall cylchdroi cnydau helpu ffermwyr hefyd i fod yn llai dibynnol ar blaladdwyr a gwrteithiau artiffisial.

Bydd y Cynllun yn cefnogi cylchdroi ar dir âr cymysg ac yn annog defnyddio amrywiaeth o gnydau. Bydd y cylchdro mwyaf addas yn amrywio o fferm i fferm, gan ddibynnu ar:

- y math o bridd a'i gyflwr
- yr amrywiolion a dyfir
- rheoli plâu
- y maethynnau yn y pridd
- manteision i'r amgylchedd
- cynaeafu, storio a marchnata.

Gallai cylchdro syml gynnwys dau neu dri chnwd a gallai cylchdro cymhleth gynnwys dwsin neu fwy. Byddwn yn gweithio gyda'r ffermwr i'w wobrwyo am ddefnyddio cylchdro cnydau sy'n addas i amodau ei fferm a'i farchnad, ond sy'n dilyn yr egwyddorion sylfaenol hyn:

- cnydau gwreiddio bas yn dilyn cnydau dwfn
- cnydau â gwreiddiau trwchus yn dilyn cnydau heb wreiddiau trwchus
- cnydau sy'n denu chwyn yn dilyn cnydau sy'n mygu chwyn
- cnydau bachu nitrogen yn dilyn cnydau sy'n drwm ar nitrogen.


(O) Caiff ffermwyr eu gwobrwyo am ddefnyddio cylchdro cnydau sy'n dilyn yr egwyddorion sylfaenol ac sy'n gwella iechyd y pridd a lles yr amgylchedd. Rhaid i'r cylchdro cnydau:

- sicrhau cydbwysedd rhwng cnydau sy'n magu ffrwythlondeb a'r cnydau sy'n dihysbyddu ffrwythlondeb
- cynnwys codlysiau mewn cnydau dilynol i fachu nitrogen
- plannu cnydau â systemau gwreiddio gwahanol
- sicrhau bod bwlch o amser rhwng cnydau sy'n denu'r un plâu a chlefydau.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn:

- cynnig cyngor a help i ffermwyr ar fanteision cnydau gwahanol ac ar sut i'w sefydlu a'u rheoli fel rhan o gylchdro
- helpu ffermwyr i weithio gyda'i gilydd er mwyn gallu defnyddio da byw a'u tail i fagu ffrwythlondeb, gan gynnwys ar ffermydd âr
- cynnig hyfforddiant a chyngor i roi blaenoriaeth i fagu ffrwythlondeb trwy wrtaith gwyrdd, codlysiau a thail da byw.

**Sut orau i ddefnyddio atchwanegion, gwrthfiotigau a meddyginiaethau**




Mae'r cylch gwella iechyd anifeiliaid yn Weithred Sylfaenol (gweler yr adran berthnasol). Fel rhan o'r broses hon, bydd ffermwyr yn cael eu hannog i wneud y defnydd gorau o wrthfiotigau a meddyginiaethau lladd llyngyr. I wneud hyn, byddwn yn helpu ffermwyr i ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithredu'n llwyddiannus.

Gall ffermwyr arbed arian a helpu i gynyddu nifer pryfed buddiol, fel chwilod y dom, drwy reoli llyngyr yn gynaliadwy. Mae rheoli llyngyr yn gynaliadwy yn golygu cyfrif wyau ysgarthol a thrin y llyngyr dim ond pan fo angen, sydd hefyd yn helpu i atal ymwrthedd i'r meddyginiaethau. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i ffermwyr roi'r gorau i reoli llyngyr da byw yn gyfan gwbl fel rhan o'r Cynllun.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn:

- helpu i gyfrif wyau ysgarthol a monitro perfformiad er mwyn trin dim ond yr anifeiliaid sydd angen triniaeth llyngyr a chynnal profion pan ofnir bod yna ymwrthedd a gwneud yn siŵr bod yr anifail yn cael y ddos gywir trwy ei bwyso a defnyddio offer mesur yn gywir
- rhoi cyngor ac arweiniad ar ddefnyddio plaladdwyr llai gwenwynig.

**Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr trwy reolaeth integredig ar blâu**




Mae Rheoli Plâu yn Integredig (IPM) yn ddull o reoli plâu, clefydau neu chwyn cnydau ar lefel fferm gyfan sy'n lleihau'r defnydd o gemegau. Mae IPM yn canolbwyntio ar dyfu cnwd iach gan amharu cyn lleied â phosibl ar yr ecosystem ehangach. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r dull rheoli mwyaf priodol, y dechnoleg orau a dulliau heb gemegolion ond gan ddefnyddio cemegolion wedi'u targedu pan fo angen. Dylai hyn arwain at leihau'r perygl o blâu, chwyn a chlefydau drwy'r egwyddor *"gwell atal clwy na'i wella"*. Mae hyn yn cynnwys defnyddio:

- technegau tyfu priodol
- cylchdroi cnydau amrywiol a chnydau cydymaith
- mathau o gnydau ag ymwrthedd i blâu
- defnydd priodol ac effeithlon o fewnbynnau (plaladdwyr a gwrtaith)
- cynefinoedd natur mewn caeau ac o'u hamgylch i annog ysglyfaethwyr a phryfed eraill sy'n bwyta plâu cnydau.

Bydd dulliau IPM sy'n arwain at ddefnyddio llai o blaladdwyr yn arbed arian i'r ffermwr ac o fudd i'r amgylchedd ac iechyd pobl. Nid yw IPM yn un weithred ond mae'n gyfres o werthusiadau, penderfyniadau a mesurau ar gyfer rheoli plâu. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr i'w helpu i ddeall pa arferion fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i leihau plâu, chwyn a chlefydau.

(S) Bydd ffermwyr yn cael help i:

- gasglu a chofnodi data defnyddio Cynnyrch Diogelu Planhigion
- cynnal asesiad IPM.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio'n rhoi hyfforddiant a chyngor ar IPM i helpu ffermwyr i werthuso beth sydd wedi gweithio ar y fferm a ble mae angen gwelliannau.



**Gwneud y defnydd gorau o borfa trwy ddulliau pori amgen, gan gynnwys porfeydd amlrywogaeth a phori cymysg**




Porfa yw'r porthiant rhataf ar gyfer da byw ond hefyd, gall porfa o'i rheoli'n dda wella cynhyrchiant ac iechyd anifeiliaid ac iechyd y pridd. Mae sawl gweithred all sicrhau mwy o werth o'r borfa:

Mae **pori a gorffwys** (neu bori cylchdro, padog, mob, manwl-gywir a chell fel y'i gelwir) yn golygu symud stoc rhwng porfeydd yn rheolaidd gan roi amser i'r porfeydd ymadfer a pheidio â'u pori eto nes ei bod yn ddelfrydol gwneud hynny. Mae rhoi cyfnod o orffwys i borfa yn caniatáu iddi adfywio'n gyflymach ar gyfer y cyfnod pori nesaf. Mae hyn yn arwain at fwy o borfa, a chyda'r gyfradd stocio gywir, defnyddir cyfran uwch o'r borfa. Mae buddion eraill yn cynnwys:

- gall leihau'r angen i brynu bwyd anifeiliaid, gwrtaith a phlaladdwyr, yn ogystal ag ymestyn y tymor pori, gan dorri costau yn ogystal ag ôl troed carbon y fferm
- mae'n gwella iechyd pridd drwy adael i wreiddiau planhigion dyfu'n fwy a chan fod tail yn cael ei ollwng yn fwy cyfartal ar draws y cae
- y gallu i ddygymod yn well â sychder gan fod planhigion sy'n gwreiddio'n ddyfnach yn gallu cael at ddŵr yn ddyfnach yn y pridd
- gyda'r rheolaeth gywir, gall helpu i leihau dibyniaeth ar foddion llyngyr.

Drwy dyfu mwy o borfa a'i defnyddio'n well, bydd ffermwyr yn gallu neilltuo rhannau llai cynhyrchiol y fferm ar gyfer gweithredoedd eraill y Cynllun i greu cynefin a/neu ymgorffori mwy o goed yn y system ffermio.

Mae **porfeydd aml-rywogaeth** (neu borfa amrywiol) yn borfa ag amrywiaeth o wahanol laswelltau, codlysiau a blodau'n tyfu arni ac o'i rheoli'n gywir, bydd yn gynhyrchiol a gall ddarparu mwy o elfennau hybrin, mwynau a chydrannau meddyginiaethol sy'n llesol i dda byw. Mae'r amrywiaeth hon yn cynnig llawer o fanteision, er enghraifft:

- mae codlysiau'n bachu nitrogen, gan leihau'r angen i brynu gwrtaith
- mae gwreiddiau dyfnach yn golygu ei bod yn dygymod â sychder yn well ac yn dal a storio carbon
- mae amrywiaeth o systemau gwreiddio yn gwella iechyd, strwythur a draeniad y pridd.

Mae **pori cymysg** hefyd yn gallu helpu i wella'r borfa a chynhyrchiant da byw a chynnig manteision i fywyd gwyllt (ymdrinnir â hyn o dan 'ffermio cymysg'). Mae'r ffordd y mae anifeiliaid gwahanol yn pori yn golygu o'u pori gyda'i gilydd, ar yr un pryd neu un ar ôl y llall, gall:

- olygu defnydd gwell o'r borfa
- gwella tyfiant anifeiliaid
- lleihau'r baich parasitiaid (yn enwedig mewn defaid)
- cynnal mwy o rywogaethau o adar a phryfed.

(O) Pori a gorffwys am o leiaf bum mis y flwyddyn trwy:

- rannu caeau er mwyn gallu symud da byw'n rheolaidd
- pori'r borfa am gyfnodau byr (rhoi cyfnod o orffwys i'r borfa cyn ei phori eto (yn dibynnu ar drwch y glaswellt)).

(O) Sefydlu a/neu gynnal porfa gymysg o laswellt, codlysiau a pherlysiau (blodau gwyllt brodorol). Bydd dau opsiwn:

1. bod o leiaf pum rhywogaeth o laswellt, tair rhywogaeth o godlys a thair rhywogaeth o berlysiau neu flodau gwyllt yn tyfu yn y borfa
2. bod o leiaf tair rhywogaeth o laswellt, dwy rywogaeth o godlys a dwy rywogaeth o berlysiau neu flodau gwyllt yn tyfu yn y borfa.

(O) Cymorth cyfalaf i helpu ffermwyr i ddarparu'r seilwaith iawn ar gyfer pori a gorffwys a/neu i arallgyfeirio i fentrau amaeth eraill sy'n gwella'r borfa a chynhyrchiant da byw.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnig help i wneud yn siŵr bod gan ffermwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i allu gwneud hyn. Bydd hefyd yn cynghori ffermwyr ar fanteision pori cymysg.

**Lleihau effaith allyriadau amonia ar yr amgylchedd**



Ansawdd aer gwael yw un o'r peryglon mwyaf i'r amgylchedd ac i iechyd y cyhoedd. Mae nitrogen yn cael ei ollwng i'r aer ar ffurf amonia o ddom ac wrth wasgaru gwrtaith. Mae amonia yn cronni yn yr atmosffer ac yna'n syrthio yn ôl i'r tir, gan darfu ar ecosystemau a'i gwneud yn amhosibl i rai rhywogaethau oroesi. Mewn crynodiadau isel, nid yw amonia yn niweidiol i iechyd pobl. Fodd bynnag, gall adweithio â llygryddion eraill i greu Deunydd Gronynnol, sy'n gallu mynd yn ddwfn i'r ysgyfaint gan achosi problemau iechyd fel asthma.

Mae colli amonia i'r aer yn golygu colli nitrogen ar gyfer tyfu planhigion, felly mae colli llai o nitrogen yn dod â manteision go iawn i fusnes y fferm yn ogystal ag i'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Gall llawer o'r gweithredoedd sy'n lleihau allyriadau amonia helpu hefyd i leihau ôl troed carbon y fferm. Mae integreiddio mwy o goed i'r system ffermio hefyd yn gwella ansawdd aer drwy ddal allyriadau amonia a ddaw o siediau anifeiliaid a storfeydd slyri. Mae cymunedau clustogi a safleoedd sensitif fel coetiroedd hynafol hefyd yn helpu (ymdrinnir â hyn dan "Rheoli amaeth-goedwigaeth a choetir a chreu rhai newydd").

(O) Opsiynau i leihau allyriadau gan gynnwys y newidiadau canlynol:

1. siediau e.e. crafu slyri'n aml a sychu tail dofednod
2. storfeydd slyri e.e. cloriau i storfeydd slyri ac asideiddio slyri
3. gwasgaru slyri'n fanwl gywir e.e. 'trailing shoe' a chwistrellu

Targedir y gweithredoedd hyn ar ffermydd ger safleoedd lle mae llygredd yn broblem e.e. cynefinoedd sensitif.


(C) Cymorth ar gyfer prosiectau cydweithredol er mwyn i ffermwyr allu gweithio gyda'i gilydd i leihau allyriadau amonia. Gellid targedu'r rheini all sicrhau'r budd mwyaf i ecosystemau. Bydd hynny'n golygu gofyn i ffermwyr a pherchenogion tir eraill gyd-drefnu'n lleol i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar y Cyd ar Nitrogen gyda'r nod o adfer cynefinoedd a sicrhau'r budd economaidd mwyaf i'r ardal.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermwyr yn rhoi cyngor i ffermwyr ar sut i leihau allyriadau amonia. I helpu yn hyn o beth, mae gennym diddordeb mewn datblygu pecyn o arfau hwylus i helpu ffermwyr i ddeall pa opsiynau ar gyfer lleihau'r risg o lygredd aer fydd yn gweithio orau ar eu fferm.

## 4.3.3 Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon

Byddwn yn helpu ffermydd i fod yn fwy effeithlon, i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i wella'u storfeydd carbon. Byddwn yn helpu ffermydd hefyd i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a chynhyrchu bwyd ag ôl troed carbon bach.

**Defnyddio ynni'n fwy effeithlon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm**

Mae ffermydd yn gollwng allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth ddefnyddio ynni a thanwydd (er enghraifft, diesel mewn peiriannau a nwy naturiol i wresogi adeiladau). Byddwn yn helpu ffermydd i ostwng yr allyriadau hyn i sero net. Gwneir hyn drwy ddefnyddio technolegau ynni isel, newid arferion rheoli (er enghraifft, bras-droi'r tir) a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'r rhain yn helpu'r fferm hefyd i fod yn fwy effeithlon, gan ddefnyddio llai o adnoddau ac arbed arian.

Bydd asesiad carbon yn rhan o'r Adolygiad o Gynaliadwyedd (gweler Pennod 4). Bydd hyn yn helpu ffermwyr i ddeall lle y gellir gwella i fod yn llai dibynnol ar danwydd ffosil. Mae llawer o bethau gwahanol y gall ffermwyr eu gwneud a byddwn yn eu helpu i ffeindio'r ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer:


- offer a pheiriannau rhad-ar-ynni
- rheoli ynni a chynnal archwiliad ynni
- storfeydd tanwydd
- ffermio manwl gywir
- technoleg glyfar.

Bydd Cyswllt Ffermio yn cefnogi ffermwyr i newid eu harferion rheoli, defnyddio technolegau newydd a manteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

(O) Bydd cymorth cyfalaf ar gael i ffermwyr sy'n gweithredu i arbed ynni er mwyn datgarboneiddio eu harferion ffermio a'u defnydd o beiriannau, ar sail yr asesiad carbon yn yr Adolygiad o Gynaliadwyedd.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio'n rhoi cyngor i ffermwyr ar sut i arbed ynni wrth ddefnyddio adeiladau, peiriannau ac offer fferm. Cynigir cyngor hefyd ar sut i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer y fferm ynghyd â dangos ble i gael arian i ariannu prosiectau mwy i allforio ynni i'r Grid Cenedlaethol neu ar gyfer cymunedau lleol.

### Anifeiliaid effeithlon: Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)



Mae'r cylch gwella iechyd anifeiliaid yn broses ragweithiol ar gyfer atal a rheoli clefydau'n well ar ffermydd. Mae sefyllfa iechyd pob fferm yn wahanol a byddai'n anodd iawn i'r Cynllun nodi rhestr o weithredoedd sy'n addas i bob sefyllfa. Yn hytrach, byddwn yn gwobrwyo ffermwyr am nodi gweithredoedd gyda chymorth eu milfeddyg sy'n addas iddyn nhw, ar sail perfformiad eu hanifeiliaid. Bydd angen i bob fferm ddilyn yr un broses AHIC, ond bydd camau penodol ar gyfer pob fferm.

Bydd ffermwyr yn cynnal hunanasesiad unwaith y flwyddyn ar sail dangosyddion perfformiad allweddol gofynnol y sector a'r diwydiant. Bydd y data yn helpu'r ffermwr a'i filfeddyg i gytuno gyda'i gilydd beth sydd angen ei wneud, drwy:

- adolygu iechyd a pherfformiad y da byw
- nodi'r prif feysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid
- gosod targedau ar gyfer gwella a chynnal nifer ymarferol (dau i bump fel arfer) o gamau mesuradwy i gyrraedd y targedau
- adolygu'n rheolaidd y camau sydd wedi'u cymryd ac, os oes angen, eu newid nes y sicrheir y gwelliant (gan ddibynnu ar y broblem iechyd, gallai hyn gymryd o wythnosau i flynyddoedd), gan arwain at welliant parhaus.

Drwy weithio fel hyn, nid oes angen bod mor haearnaidd. Caiff ffermwyr benderfynu ar yr ateb gorau i'w fferm, a gall y milfeddyg gymryd rhan fwy gweithredol ym mhenderfyniadau'r fferm ynghylch iechyd da byw. Mae'r AHIC yn ategu ac yn llywio bioddiogelwch y fferm i leihau'r risg o adael clefyd i'r fferm ac i wella iechyd yr anifeiliaid. Dylai'r fferm weld gwelliant parhaus. Y nod yn y pen draw yw cyfyngu ar broblemau iechyd, a'u rheoli'n bennaf drwy atal. Dylai hyn arwain at:


- anifeiliaid mwy cynhyrchiol
- gwella perfformiad ariannol y fenter da byw a mwy o elw
- defnydd gwell o feddyginiaethau, gyda raddol leihau'r defnydd i drin problemau (gwrthfiotigau) a defnyddio rhai sy'n atal afiechyd (e.e. brechlynnau)
- gwella lles anifeiliaid
- bwyd mwy diogel
- llai o effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ôl troed carbon
- gwella lles ceidwaid da byw
- milfeddygon yn cymryd mwy o ran mewn gofal ataliol yn hytrach na thriniaeth.

(S) Bydd angen i ffermwyr:

- gynnal gweithredoedd y bydd wedi'u nodi gyda chymorth y milfeddyg, trwy Gylch Gwella Iechyd Anifeiliaid
- gyfrif a chofnodi faint o wrthfiotigau a ddefnyddir ar y fferm ar gyfartaledd.



**Anifeiliaid effeithlon: Gwella'r eneteg (cymorth ar ffurf cyngor)**



Ers i anifeiliaid fferm gael eu domestigeiddio, mae ffermwyr wedi bod yn eu bridio i ddethol nodweddion dymunol. Mae gwella'u geneteg wedi arwain at welliant aruthrol yn eu heffeithlonrwydd. Mae cadw cofnodion effeithiol yn offeryn pwerus a ddaw â mantais i bob brîd, gan gynnwys bridiau brodorol prin. Drwy ddefnyddio geneteg i wella potensial anifail, ynghyd â defnyddio'r brîd cywir ar gyfer y lleoliad dan sylw a rheolaeth dda, y canlyniad i'r ffermwr fydd anifeiliaid sy'n perfformio'n well.

Er mwyn gwneud y gorau o welliant genetig mae angen ei ddefnyddio ochr yn ochr â neu fel rhan o:

- Strategaeth fridio i nodi pa nodweddion y mae angen eu gwella, yn seiliedig ar berfformiad y ddiadell/buches, er mwyn gwneud y fferm yn fwy proffidiol.
- System gynhyrchu sy'n gweddu orau i ofynion y fferm a'r farchnad, gan gynnwys defnyddio bridiau sy'n addas i'r hinsawdd a'r tir.
- Cynllun i wella iechyd anifeiliaid.

Trwy ddefnyddio geneteg, ynghyd â chadw anifeiliaid iach a gwneud defnydd da o laswellt, bydd ffermwyr yn cael yr anifail mwyaf effeithlon fydd yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r glaswellt a dyfir, gan eu helpu i:

- ostwng oed treisiedi/heffrod bîff a godro ar enedigaeth eu llo cyntaf, heb beryglu iechyd a lles
- cynyddu nifer blynyddoedd llaetha gwartheg godro
- gostwng yr oedran pan fydd ŵyn tew a gwartheg yn barod i'w lladd.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn helpu ffermwyr i wneud y gorau o eneteg anifail i wella ei botensial. Bydd ffermwyr yn gallu cael at wybodaeth am fanteision defnyddio bridiau sy'n addas i'w hamgylchedd a'u lleoliad.

### Adfer mawnogydd lled-naturiol




Mae mawn wedi'i wneud o haenau o blanhigion marw sydd wedi crynhoi dros filoedd o flynyddoedd. Mae'r amodau gwlyb naturiol yn golygu nad yw'r planhigion marw'n pydru ac mae'r carbon ynddyn nhw'n cael ei gadw a'i gloi. Mae'r mawn yn dal i adeiladu wrth i'r mwsogl sffagnwm dyfu, marw a chael ei gywasgu gan fwy a mwy o haenau yn tyfu ar ei ben. Mae mawnogydd iach yn dal i gloi carbon o'r atmosffer ac mae poblogaethau llewyrchus o fwsoglau sffagnwm yn amsugno dŵr gan leihau'r risg o lifogydd yn is i lawr y dyffryn.

Mae llawer o fawnogydd mewn cyflwr truenus oherwydd draenio, tân neu gorbori. Ar fawnogydd wedi'u sychu, fe welwch ffosydd draenio, sy'n golygu bod y lefel trwythiad wedi gostwng a bod haenau o fawn yn dod i gysylltiad ag aer gan ollwng y carbon sydd wedi'i gloi ers miloedd o flynyddoedd. Nid yw mawnogydd sydd wedi dirywio fel hyn - lle ceir porfa amaethyddol, molinia neu redyn - yn gallu atal llifogydd mwyach a lle ceir mawn moel, gall erydiad greu problemau i gyflenwadau dŵr yfed.

Mae adfer mawnogydd yn weithred y rhoddir blaenoriaeth iddi, er mwyn arafu a lliniaru rhai o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gan ddibynnu ar y safle penodol, gallai'r gwaith adfer hwnnw olygu cau ffosydd artiffisial, ailgyflwyno llystyfiant mawnogydd a sefydlu lefelau pori cynaliadwy.

Dim ond tua 4% o arwynebedd tir Cymru sy'n fawnogydd ac mae angen set benodol iawn o amodau arnynt i ffurfio a phara'n iach. Gall arferion rheoli amhriodol eu niweidio, gan gynnwys:

- carthu ffosydd
- defnyddio bryfladdwyr, ffwngladdwyr a gwenwyn molysgiaid
- defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd
- torri neu docio llystyfiant ac eithrio i reoli rhywogaethau chwyn niweidiol
- llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill (ac eithrio pan fo'n rhan o gynllun adfer/gwella y cytunwyd arno)
- rholio neu lyfnu
- rhoi porthiant atodol
- plannu coed
- unrhyw weithgareddau i symud pridd (ac eithrio pan fo'n rhan o gynllun adfer/gwella y cytunwyd arno)
- gweithgareddau ar gyfer cerbydau
- adeiladu traciau, ffyrdd, buarthau, lloriau caled neu unrhyw strwythurau newydd sy'n storio deunyddiau neu beiriannau.

(S) Os oes ganddo fawnog, rhaid i'r ffermwr ei rheoli'n briodol.

(O) Bydd cyfle i ffermwyr gynnal gweithgareddau i adfer a rheoli mawnogydd (llystyfiant o'r math sy'n tyfu ar gyforgors, gorgors, gwaun wlyb, mignen a ffen). Gall hynny gynnwys cau ffosydd, adeiladau argaeau sy'n gollwng, ailbroffilio darnau wedi'u herydu a sefydlu llystyfiant. Rydym yn cydnabod y gall gymryd blynyddoedd i adfer mawnog.

(C) Cymorth ar gyfer prosiectau i adfer neu reoli mawnog sy'n cael ei rhannu gan nifer o ffermwyr.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor ac arweiniad ar sut i reoli ac adfer mawnog.



### Rheoli amaeth-goedwigaeth a choetir a chreu rhai newydd



Rydym wedi gosod targed i greu 43,000ha o goetir newydd erbyn 2030 i helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Bydd ffermwyr yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth. Ar yr olwg gyntaf, bydd hyn yn golygu newid mawr o ran rheoli ffermydd. Ond, yn ogystal â phlannu coetir ar raddfa cae ar dir isel ei werth o ran amaeth a chynefin, rydym am gefnogi ffermwyr i blannu mwy o berthi/gwrychoedd, lleiniau cysgodi a choed mewn corneli caeau.

Cyn plannu mwy o goed, byddai'n syniad da iawn dod â choed a choetiroedd fferm sy'n bodoli eisoes o dan gynllun rheoli. Mae hynny'n golygu y caiff ffermwyr eu talu i reoli perthi a choetiroedd sy'n bodoli eisoes.

Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr i integreiddio mwy o goed yn eu system ffermio a rheoli'r coetiroedd presennol er budd y fferm, yr amgylchedd a chymdeithas. Bydd hyn yn cynnwys:

- cefnogi ffermwyr i ddiogelu'n coetiroedd hynafol, sy'n bwysig am eu bioamrywiaeth ac i'n treftadaeth.
- gwella ansawdd aer drwy ddal allyriadau amonia o siediau da byw a storfeydd slyri neu glustogi safleoedd sensitif fel coetiroedd hynafol rhag amonia
- gwella a diogelu bioamrywiaeth drwy greu a chysylltu cynefinoedd
- gwella lles anifeiliaid drwy gynnig cysgod i dda byw a bioddiogelwch drwy wneud ffiniau ffermydd yn fwy trwchus trwy ddefnyddio perthi/gwrychoedd a phlannu coed
- lleihau'r perygl o lifogydd drwy arafu llif dŵr
- gwella ansawdd dŵr drwy atal llif dŵr wyneb, gwella sefydlogrwydd pridd a lleihau llygredd o faethynnau
- cynnig cyfleoedd hamdden drwy ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad atynt.

Gallai ffermydd hefyd elwa mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy dyfu pren i ddal carbon a chreu ffynonellau incwm newydd.

Byddwn hefyd yn cefnogi ffermwyr i greu perthi newydd ac i'w rheoli yn unol â'r cylch rheoli perthi[3]. Mae hyn yn cynnwys tocio i bwynt ychydig yn uwch a lletach bob tro, sy'n cadw'r berth yn iach am gyfnod llawer hirach. Nod y cylch rheoli perthi yw creu perth drwchus a llydan. Dyma'r math o berth sy'n cynnig y manteision mwyaf i ffermwyr ac i fyd natur.

---

3 www.ptes.org/hedgerow/managing-hedgerows-top-tips/

Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr i wneud y gorau o'r manteision hyn a rhoi'r goeden iawn yn y lle iawn mewn ffordd sy'n gweithio orau i'r fferm. Mae hyn yn cynnwys helpu'r ffermwr i benderfynu ble orau i blannu coed yn ogystal â dewis rhywogaeth ar sail pa mor dda y mae'n dal carbon, yn gwella bioamrywiaeth ac yn sicrhau unrhyw ganlyniadau eraill. Rydym am wneud hyn drwy gynllun creu a rheoli coetir. Gan ddibynnu ar lefel y cymhlethdod, bydd rhai ffermwyr yn gallu dod i ben â dim ond ychydig o gyngor ac arweiniad. I eraill, byddwn yn cynnig cymorth mwy uniongyrchol i'w helpu i lunio eucynllun i sicrhau'r manteision mwyaf ac ategu'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Rydym am greu Cynllun hyblyg, yn enwedig er mwyn sicrhau nad yw tenantiaid a'r rheini sydd â hawliau pori tir comin o dan anfantais. Byddwn yn ystyried hyn yn fanylach yn ein hail gyfnod cyd-ddylunio ac yn ein gweithgorau technegol.

(S) Bydd ffermwyr yn:

- cadw o leiaf 10% o'u fferm o dan goed. Dylai gael ei reoli yn unol â Safon Goedwigaeth y DU
- rheoli perthi/gwrychoedd hen a newydd yn unol â'r cylch rheoli perthi.

(O) Rheoli'r coed a'r coetir, gan gynnwys coetir hynafol, sy'n bod eisoes, yn unol â Safon Goedwigaeth y DU (mwy na 10% y Weithred Sylfaenol).

(O) Caiff ffermwyr sydd am blannu mwy na'r lleiafswm o 10% gael cymorth i blan-nu mwy o goed unigol, perthi, grwpiau o goed, lleiniau clustogi a rhimynnau glan-afon.

(O) Byddwn yn cefnogi ffermwyr i ledu perthi rhwng ffermydd i 3 metr (oni bai eu bod wedi'u gwahanu gan goetir, ffyrdd, waliau ac ati).

(C) Cefnogaeth i brosiectau rheoli ac uno coetiroedd ar raddfa fwy na'r fferm unigol er lles y ffermydd, yr amgylchedd a chymdeithas.

## 4.3.4 Diogelu a gwella ecosystem y fferm

Byddwn yn cefnogi ffermwyr i weithio'n dda â'u hecosystemau, gan ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, i sicrhau priddoedd iach a byw ac amrywiaeth gyfoethog o ran y fferm a natur.

### Diogelu pridd rhag erydu a dirywio




Mae pridd yn adnodd naturiol yr ydym i gyd yn dibynnu arno. Mae cadw pridd yn iach yn bwysig er mwyn gallu cynhyrchu bwyd, nawr ac yn y dyfodol. Hefyd, mae pridd iach yn storio carbon ac yn ein hamddiffyn rhag llifogydd a sychder. Gall erydu, cywasgu a cholli deunydd organig niweidio pridd a lleihau ei allu i gynhyrchu bwyd. Effaith arall yw rhyddhau carbon i'r atmosffer a gall y pridd a gollir lygru cyrsiau dŵr.

Mae perygl i briddoedd (yn enwedig priddoedd ar dir âr) gael eu herydu gan ddŵr, gwynt ac aredig. Gall da byw hefyd achosi erydiad drwy stablad (corddi) neu gywasgu'r pridd. Gall ffermwyr ddiogelu'u pridd a'i adfywio, gan gynnwys gwella ei ficrofioleg, drwy:

- cadw gorchudd drosto fel nad yw'n agored i'r gwynt a'r glaw (mantais arall rhai cnydau gorchudd yw eu bod yn gynefin i bryfed peillio)
- lleihau'r risg o gywasgu a stablad gan beiriannau a da byw
- gwella strwythur y pridd a deunydd organig pridd.

(S) I ddiogelu pridd rhag erydiad, mae angen i ffermwyr blannu cnwd gorchudd gyda sawl rhywogaeth ar unrhyw dir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf.

(O) Rhoddir yr opsiwn i ffermwyr ddewis sefydlu cnydau trwy fras-droi neu heb droi o gwbl.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor a chymorth ar ddefnyddio traciau a lonydd ar y fferm er mwyn osgoi niweidio'r pridd trwy ei gywasgu yn ogystal ar sut i wneud y pridd yn fwy iach.

**Amrywiaeth gyfoethog ar y fferm: Ffermio cymysg**



Gall ffermio cymysg (gwartheg, defaid a dofednod) yn enwedig ar y bryniau a'r mynyddoedd fod yn llesol o ran rheoli tir pori a chynhyrchu da byw a hefyd i fywyd gwyllt. Mae'r ffordd y mae anifeiliaid gwahanol yn pori yn golygu y gall eu pori gyda'i gilydd neu un ar ôl y llall olygu:

- bod mwy o'r glaswellt yn cael ei bori
- gwella cyfraddau twf anifeiliaid
- lleihau llyngyr (yn enwedig ar ddefaid)
- cynnal mwy o rywogaethau o adar a glöynnod byw
- cadw rheolaeth well ar laswellt goresgynnol fel molinia.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio'n cynnig cyngor i ffermwyr ar fanteision ffermio cymysg a chynnal mwy nag un fenter. Bydd hefyd yn rhoi cyngor ar gyflwyno ffermio cymysg a chyfleoedd hynny yn y farchnad.



### Amrywiaeth gyfoethog ar y fferm: Diogelu bridiau prin



Mae gan y DU dros 160 o fridiau brodorol gwahanol o dda byw (gwartheg, defaid, moch, geifr, ceffylau a dofednod). Dyma'r bridiau sydd, ers canrifoedd, wedi ein cadw mewn bwyd a dillad. Yn ogystal â bod yn rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol, mae ein bridiau brodorol wedi'u haddasu i ffynnu yn ein tirweddau a'n hinsawdd. Mae llawer o fridiau'n gallu ffynnu ar y tir ymylol, heb ei wella, sy'n gyffredin yng Nghymru. Maent hefyd yn tueddu i fod yn wytnach ac yn addas iawn i ffermio dwysedd isel ar borfa. Mae llawer o fridiau brodorol yn hanfodol hefyd ar gyfer rheoli cynefinoedd a bioamrywiaeth trwy eu harferion pori ategol.

Am y rhesymau hyn, mae ein bridiau brodorol yn adnodd genetig gwerthfawr y mae angen ei warchod. Mae nodweddion pwysig yn perthyn iddyn nhw a byddai eu colli yn golygu o bosib na fyddwn yn gallu delio cystal â'r heriau fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol. Dyna pam yn ein barn ni mae amrywiaeth enetig da byw yn rhan bwysig o fioamrywiaeth, sy'n cynnal ecosystemau cydnerth.

Bydd y Cynllun yn hyrwyddo ac yn cefnogi bridiau da byw a cheffylau brodorol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y mae'r bridiau hyn yn eu darparu yng Nghymru.

(O) Bydd opsiwn gan ffermwyr i ddewis yr opsiwn bridiau brodorol prin fel atodiad i'r gweithredoedd opsiynol eraill. Rhaid iddynt fod yn anifeiliaid pedigri cofrestredig o frid brodorol sydd ar restr gymeradwy'r DU o fridiau brodorol mewn perygl.


(C) Bydd cymorth cydweithredol ar gael i ffermwyr sy'n cynhyrchu'n gyson o fridiau brodorol, gan gynnwys gwerthu mwy yn uniongyrchol i gwsmeriaid a gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo iechyd genetig. Bydd cymorth cydweithredol ar gael hefyd i ffermwyr sy'n dod ynghyd ac yn defnyddio bridiau brodorol i ddatblygu a chynnal cynefinoedd naturiol a chynyddu bioamrywiaeth.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio'n hyrwyddo manteision defnyddio bridiau prin a brod-orol.

## Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau

Mae'r gweithredoedd rheoli cynefinoedd a rhywogaethau wedi'u rhannu'n dair adran yn ôl statws y tir – cynefin lled-naturiol, tir wedi'i wella a safleoedd dynodedig. Gellir rhannu'r gofyn i neilltuo 10% o dir rhwng y tri math o dir. Bydd y camau y bydd angen eu cymryd yn amrywio, gan ddibynnu ar y cynefin a'i gyflwr. Bydd Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd yn cael ei gynnal i weld pa fath o gynefin sy'n bresennol, faint ohono sydd a'i gyflwr. Bydd yr adolygiad yn blaenoriaethu'r cynefinoedd ynghyd â'r camau y mae angen i ffermwyr eu cymryd.

**Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau; Cynnal a chreu cynefinoedd**




Mae pwysau amgylcheddol yn lleihau bioamrywiaeth y byd ar raddfa na welwyd ei debyg yn hanes dyn. Mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru. Mae natur yn hanfodol i gynhyrchu bwyd ac mae cynefinoedd cydnerth yn cynnig manteision fel rheoli llifogydd yn naturiol, tynnu carbon deuocsid a helpu i buro aer a dŵr. Yng Nghymru, er bod camau da wedi'u cymryd a rhai rhywogaethau nodedig ar gynnydd, mae'n bioamrywiaeth yn dal i grebachu.

Mae'r Cynllun yn rhoi i ni un o'r cyfleoedd mwyaf yn ein cenhedlaeth i helpu ffermwyr i reoli'u tir er lles bioamrywiaeth. Drwy wneud, bydd ffermwyr yn cyfrannu at ein targed o warchod 30% o'n tir er lles natur erbyn 2030.

Trwy gefnogi ffermwyr i gadw o leiaf 10% o'u tir fel cynefin lled-naturiol, byddwn yn helpu i adfer, rheoli a chreu cynefinoedd. Y sail i hyn fydd yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd (gweler pennod 4). Bydd yn nodi presenoldeb cynefin lled-naturiol, pa fath a faint ohono, ynghyd â'i gyflwr ac o hwn, faint sy'n:

- gynefin â blaenoriaeth
- cynefin arall o ansawdd da y gellid ei gynnal neu ei wella drwy weithredoedd y Cynllun
- cynefin o ansawdd is y gellid ei wella drwy'r Cynllun.

Rhaid cynnal cynefinoedd lled-naturiol presennol yn unol â rheoliadau'r EIA, ac mae hyn yn cynnwys unrhyw gynefin lled-naturiol nad yw'n cyfrannu at y 10% sy'n dod o dan y Cynllun. Bydd gweithredoedd opsiynol i gynnal mwy na'r trothwy o 10% o gynefin a bydd yn daliad ychwanegol.

Os nad oes digon o gynefinoedd lled-naturiol, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd ar gyfer creu cynefin parhaol neu dros dro ar dir amaethyddol i gyrraedd y trothwy o 10%.

(S) Bydd angen i ffermwyr fynd ati i neilltuo o leiaf 10% o'u tir i gynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol. Os nad oes digon o gynefin lled-naturiol, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd ar gyfer creu cynefin parhaol neu dros-dro ar dir amaethyddol.


(O) Rheoli neu wella cynefinoedd dros y 10% gofynnol, gan gynnwys gweithredoedd arbennig i safle penodol.

(C) Bydd y Cynllun yn cefnogi cydweithrediad i greu cynefinoedd sy'n cysylltu â'i gilydd ar draws y tirlun trwy uno cynefinoedd, gan ystyried unrhyw flaenoriaethau lleol neu genedlaethol o ran adfer rhywogaethau.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor ar greu a rheoli cynefinoedd.



**Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: Cynefinoedd ar dir wedi'i wella**



Mae ffermwyr yng Nghymru wedi ymateb i'r farchnad a pholisïau i gynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel i bobl Cymru a thu hwnt. Mae'r ffordd y caiff rhannau o'n tir ffermio ei reoli wedi arwain at leihau bioamrywiaeth. Yn ogystal â bod yn bwysig ynddo'i hun, mae bioamrywiaeth yn effeithio ar ein gallu i gynhyrchu bwyd ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr i ffermio mewn ffordd sy'n cynhyrchu bwyd ac yn adfer bioamrywiaeth ar yr un pryd.

Dros y degawdau mae ein tirweddau wedi newid o fod yn glytwaith amrywiol o ffermydd cymysg a chynefinoedd lled-naturiol i wlad unffurf o ffermydd un-cnwd mawr. Mae'r tirweddau llai cymhleth hyn yn golygu bod llai o blanhigion blodeuol ar gael i bryfed peillio fel gwenyn a gloÿnnod byw a bod llai o gynefinoedd wedi'u cysylltu â'i gilydd, fel sydd eu hangen ar nifer fawr o rywogaethau. Mae coridorau bywyd gwyllt, ymylon blodau a chloddiau chwilod mewn caeau, o fudd anferth i bryfed peillio ac yn cynnig cynefin i anifeiliaid eraill allu symud drwy'r dirwedd. Maen nhw hefyd yn helpu i ddiogelu perthi a chyrsiau dŵr.

Nid yw gwella bioamrywiaeth yn golygu cynhyrchu llai o fwyd. Er enghraifft, drwy gynnal y gwelliannau yn rhannau lleiaf cynhyrchiol y fferm, gall ffermwyr helpu bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd yr un pryd, a gall bioamrywiaeth well gynyddu cynhyrchiant.

Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr felly i sicrhau bod o leiaf 10% o'r tir sy'n cael ei ffermio yn cael ei reoli fel cynefin er lles bioamrywiaeth. Lle nad oes digon o gynefin lled-naturiol, bydd angen i ffermwyr ddewis creu cynefin parhaol neu dros dro ar dir amaethyddol. Gallai'r opsiynau hyn gynnwys:

- cadw ymylon cnydau yn fraenar
- talarau caeau ŷd heb eu ffrwythloni/heb eu chwistrellu
- lleiniau ar gyfer ehedyddion (lleiniau o fraenar o fewn cnwd ydau gaeaf)
- ymyl o borfa arw barhaol ar dir âr ac ymyl o borfa arw fel cylchdro ar dir âr
- ymylon o flodau
- cloddiau chwilod
- nodweddion gwlyb
- rheoli gweirgloddiau blodeuog traddodiadol.

(S) Bydd angen i ffermwyr fynd ati i neilltuo o leiaf 10% o'u tir i gynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol. Os nad oes digon o gynefin lled-naturiol, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd ar gyfer creu cynefin parhaol neu dros-dro ar dir amaethyddol.

(O) Rheoli neu wella cynefinoedd dros y 10% gofynnol, gan gynnwys gweithredoedd arbennig i safle penodol.

(C) Bydd y Cynllun yn cefnogi cydweithrediad i greu cynefinoedd sy'n cysylltu â'i gilydd ar draws y tirlun trwy uno cynefinoedd, gan ystyried unrhyw flaenoriaethau lleol neu genedlaethol o ran adfer rhywogaethau.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor ar greu a rheoli cynefinoedd.



### Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau: Safleoedd dynodedig




Mae'r rhwydwaith o safleoedd dynodedig gwarchodedig yn hanfodol i fioamrywiaeth ac mae'n rhan bwysig o'r dirwedd a ffermir. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru yn cynnwys yr enghreifftiau gorau o'n hamgylchedd naturiol. Yn ogystal â bod yn hanfodol i warchod bioamrywiaeth, mae safleoedd gwarchodedig yn cynnig llawer o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys:

- storio carbon mewn priddoedd llawn carbon
- rheoli llif dŵr
- helpu i buro aer a dŵr
- yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi gan bobl, at ddibenion hamddena a thwristiaeth gan gyfrannu at ymdeimlad pobl o le
- yn cael eu rheoli i gynhyrchu bwyd, yn ogystal â phren, gyda rhywfaint o dir yn addas ar gyfer bridiau da byw prin
- diogelu rhywogaethau planhigion y gellid eu defnyddio fel cnydau yn y dyfodol
- adnodd ar gyfer ymchwil ac addysg.

Mae tua 80% o'n safleoedd dynodedig mewn cyflwr anffafriol, neu anhysbys. Nid oes gan y mwyafrif gontractau rheoli. Y nod yw bod pob safle gwarchodedig o dan reolaeth gadarnhaol o fewn tymor cyntaf y Cynllun.

Os oes ffermwr yn ymuno â'r Cynllun a bod ganddo reolaeth lwyr ar dir dynodedig sydd heb gytundeb rheoli (e.e. Cytundeb Rheoli Adran 15/16), caiff cynllun rheoli ei lunio rhwng y ffermwr, CNC ac unrhyw barti perthnasol arall. Os oes cytundeb rheoli eisoes yn bod, gellir parhau i'w ddefnyddio os yw'n bodloni gofynion y Cynllun.

Os yw'r safle dynodedig yn cael ei reoli'n briodol, gellir ei gyfrif at y 10% o'r fferm y mae'n ofynnol ei reoli fel cynefin. Os yw'r safle dynodedig yn fwy na 10% o'r fferm, gellir cynnwys y tir ychwanegol fel Gweithred Opsiynol er mwyn cael taliad ychwanegol.

Os oes Cytundeb Rheoli Adran 15/16 yn cael ei ariannu a'i redeg ochr yn ochr â'r Cynllun, efallai y bydd angen newid y taliadau rhag i'r ffermwr gael ei dalu ddwywaith am wneud yr un peth.


Lle ceir nodwedd ddynodedig sy'n rhychwantu mwy nag un fferm, er enghraifft coridor afon, bydd cyllid ar gael ar gyfer rheolaeth gydweithredol. Mae hyn hefyd yn wir ar dir comin lle ceir nifer sydd â hawliau pori, a fydd yn gorfod gweithio ar y cyd i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir ar draws y dirwedd.

(S) Datblygu a chytuno ar gynllun rheoli, yn barod i'w roi ar waith ar safleoedd gwarchodedig sydd o dan reolaeth lwyr y ffermwr.

(C) Cefnogaeth ar gyfer cydweithredu i reoli safleoedd gwarchodedig i sicrhau canlyniadau SLM.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor ar greu a rheoli cynefinoedd.

### Diogelu dŵr rhag llygredd: Lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig




Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein dŵr yn cael ei reoli'n gynaliadwy fel bod ein hafonydd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol yn parhau i roi'r buddiannau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol. Llygredd gwasgaredig yw llygryddion fel maethynnau, plaladdwyr, bacteria, cemegion a gwaddodion sy'n llifo oddi ar dir ffermio i gyrsiau dŵr.

Rhaid i bob fferm gadw at Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru). Daethant i rym ar 1 Ebrill 2021, gyda chyfnodau pontio ar gyfer rhai mesurau tan 1 Awst 2024. Nod y Rheoliadau yw lleihau'r llygryddion sy'n cael eu colli gan ffermydd i'r amgylchedd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio yn ogystal â gosod safonau ar gyfer gwneud silwair, storio sudd silwair a storio slyri. Bydd y Cynllun yn cefnogi gweithredu y tu hwnt i'r rheoliadau ac yn helpu ffermwyr i adeiladu ar hyn drwy gynlluniau personol ar gyfer lleihau'r risg o lygredd ar y fferm. Byddwn yn defnyddio mapiau sy'n dangos llwybrau mwyaf tebygol y llygredd o'i darddiad i'r dŵr i helpu ffermwyr i gymryd y camau sy'n gweithio orau i'r fferm. Gallai hyn gynnwys:

- gwella seilwaith ffermydd ar gyfer gwahanu dŵr glân a dŵr brwnt/budr yn ogystal â storio slyri a thail
- defnyddio data byd go iawn gan synwyryddion tywydd lleol, sy'n mesur tymheredd y pridd, lleithder dail a lleithder pridd, i helpu i benderfynu pryd i wasgaru tail a gwrtaith
- sefydlu llain glustogi wrth ochr cyrsiau dŵr
- mapio hydroleg er mwyn gallu targedu gwaith rheoli tail a maethynnau
- rhwystro stoc rhag mynd at gyrsiau dŵr
- cynnal gweithredoedd y Cynllun i wella strwythur y pridd, megis porfeydd aml-rywogaeth
- plannu coed i atal llif dŵr a llygryddion ar draws y tir cyn iddynt gyrraedd cyrsiau dŵr.

(O) Caiff ffermwyr eu cefnogi i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain i leihau'r risg o lygredd gwasgaredig. Bydd hyn yn amrywio o fferm i fferm ond bydd yn cynnwys dewis camau opsiynol ar sail data mapiau risg.

(C) Bydd cefnogaeth ar gyfer cydweithredu i wella ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd. Rydym am weld sut y gallai'r Cynllun ddod â grŵp eang o ffermwyr, perchenogion tir, partïon a chwmnïau dŵr ynghyd i sicrhau bod yr hyn a wneir ar y fferm yn rhan o becyn ehangach i ddelio â tharddiad pob llygredd dŵr.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnig cyngor a help i ffermwyr i leihau llygredd gan gynnwys hyfforddiant a digwyddiadau ar ffermydd.

### Diogelu dŵr rhag llygredd: Gwarchod glannau cyrsiau dŵr



Gall lleiniau clustogi o goed, llwyni a phorfa ar lan afon helpu i:

- ddiogelu'r lan rhag cael ei herydu neu ei difrodi
- amsugno a hidlo maethynnau a lleihau llygredd gwasgaredig
- cynnig cynefinoedd natur
- rheoli tymheredd y dŵr, gan ddiogelu cydbwysedd manwl ecosystem yr amgylchedd dŵr
- gwella mynediad at lan yr afon
- arafu lledaeniad clefydau anifeiliaid
- lleihau risg ac effeithiau llifogydd (law yn llaw â gweithgareddau eraill).

Byddwn yn cefnogi ffermwyr i sefydlu llain o gwmpas dyfroedd wedi'u rheoli. Gall y llain amrywio yn ei maint ond rhaid iddi fod o leiaf 6 metr o led. Gall olygu cyflwyno cymysgedd o borfa, llwyni a choed i'r ardal, gan ddibynnu ar beth sy'n gweithio orau i'r ffermwr ac o ran y canlyniadau y mae'n gobeithio eu sicrhau. Gellir cyfri'r llain at y ganran ofynnol o gynefin neu o goed.

(O) Caiff ffermwyr eu cefnogi i sefydlu llain glustogi ar lan cwrs dŵr. Rhaid iddi fod o leiaf 6 metr o led a gall gynnwys cymysgedd o borfa, llwyni a choed.

**Diogelu a chadw dŵr: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol**




Mae pyllau dŵr parhaol a thymhorol ar dir fferm yn gynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt tir gwlyb yn y dirwedd amaethyddol. Mae rhwydweithiau iach o byllau, ar wahanol gamau o'u cylchoedd bywyd, yn caniatáu i rywogaethau fridio, bwydo a symud o gwmpas cynefinoedd tir fferm. Maen nhw'n cynnal amrywiaeth o bysgod, amffibiaid, pryfed a phlanhigion prin.

Hefyd, mae pyllau tymhorol dros dro naturiol yn gynefin pwysig sydd dan fygythiad mawr. Pan fyddan nhw'n llawn dŵr, bydd pyllau dros dro yn cynnal llawer o fathau o fywyd gwyllt yn yr un modd ag y bydd pwll parhaol ond, drwy sychu'n rheolaidd, ni all pysgod sefydlu ynddynt. Mae hyn yn golygu y gall amffibiaid a phryfed dyfrol (fel chwilod y dŵr) ffynnu gan nad ydynt yn gorfod cystadlu â physgod. Yn ogystal â hybu bioamrywiaeth, mae pyllau dŵr hefyd yn:

- chwarae rhan werthfawr yn y broses o atal llif dŵr a helpu fel dull naturiol o reoli llifogydd
- helpu i dynnu llygryddion o ddyfroedd wyneb, gan gynnwys gwaddod, ffosfforws a nitrogen
- amsugno carbon.

Byddwn yn cefnogi ffermwyr i reoli eu pyllau ac i greu rhai newydd. Bydd yn rhaid i ffermwyr greu/adfer a chynnal o leiaf ddwy nodwedd ddŵr heb fod yn llai na chyfanswm o 0.01ha (100$m^2$) a hyd at gyfanswm o 0.1ha (1,000$m^2$) o arwynebedd caeedig (pyllau) neu ddŵr agored. Os yw fferm yn fwy nag 80ha, cyfanswm yr arwynebedd lleiaf o ddŵr fydd 0.2ha (2,000$m^2$). Nid yw hyn yn cynnwys nodweddion storio dŵr, er enghraifft pyllau dyfrhau, cronfeydd storio a thanciau dŵr.



(S) Bydd yn rhaid i ffermwyr adfer a rheoli pyllau bywyd gwyllt parhaol a/neu greu nifer o byllau dros dro.

(O) Bydd ffermwyr sydd am wneud mwy yn cael eu gwobrwyo am greu pyllau ychwanegol os yw'n briodol gwneud hynny.

## Diogelu a chadw dŵr: Casglu a storio dŵr



Mae'n bosibl y bydd y tywydd mwy eithafol a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn golygu y gallai fod yn anoddach i ffermwyr gael at gyflenwadau sefydlog o ddŵr yn y dyfodol agos. Mae rhagolygon y Swyddfa Dywydd yn awgrymu y bydd hafau'n dwymach ac yn sychach a gaeafau'n wlypach ac yn fwynach. Bydd helpu ffermwyr i ddefnyddio dŵr yn effeithlon yn helpu i ddiogelu'r adnodd naturiol hanfodol hwn yn ogystal â dod â manteision i fusnes y fferm.

Byddwn yn helpu ffermwyr i grynhoi dŵr glaw oddi ar doeon o amgylch buarthau dros y gaeaf a'i storio i'w ddefnyddio i leihau'r pwysau ar adnoddau dŵr croyw. Bydd hefyd yn sicrhau bod llai o ddŵr yn llifo i'r storfeydd slyri a llai o ddŵr budr/brwnt yn llifo i gyrsiau dŵr. Mae cadw dŵr glân a budr ar wahân yn golygu y bydd llai o slyri i'w wasgaru, gan arbed amser, ymdrech ac arian yn ogystal â helpu i leihau'r risg o lygru dŵr.

Byddwn yn helpu ffermwyr i wneud hyn drwy:

- gynnig cymorth ac arweiniad ar gyfer mesur faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio ac, ar sail hynny, cynnig cymorth pwrpasol ar gyfer ailgylchu dŵr glân
- bydd cymorth cyfalaf ar gael i ffermwyr i osod seilwaith a thechnoleg i ddal ac ailddefnyddio dŵr, gan gynnwys cronfeydd dŵr i gasglu a storio dŵr dros ben y gellir ei ddefnyddio mewn cyfnodau sych yn ogystal ag er lles bywyd gwyllt.

(O) Cynigir help i ffermwyr i:

- greu cronfeydd dŵr a phyllau dyfrhau newydd
- gosod offer casglu ac ailgylchu dŵr
- gosod seilwaith gwahanu dŵr glân a dŵr budr.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi gwybodaeth i ffermwyr am fanteision gwahanu dŵr glân/budr ac ailgylchu dŵr glân.

## Dulliau naturiol o reoli llifogydd



Mae 245,000 eiddo yng Nghymru mewn perygl o ddioddef llifogydd afonydd, môr a dŵr wyneb. Wrth i'r hinsawdd newid, gallwn ddisgwyl i'r nifer gynyddu, gyda llifogydd amlach a mwy difrifol yn effeithio ar fwy o gymunedau.

Nod Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) yw arafu llif y dŵr mewn dalgylch gan ddefnyddio nifer o dechnegau sy'n gweithio gyda nodweddion y dirwedd i arafu neu storio dŵr. Nid yw dulliau naturiol o reoli llifogydd yn ateb llwyr ond gall helpu i leihau'r risg a lleihau'r effaith. Yn ogystal â helpu i arafu llif dŵr llifogydd gall NFM hefyd storio carbon yn ogystal â gwella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr. Gall gynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- plannu coed ar orlifdir neu ar lan yr afon neu gau ffosydd ar rostir i arafu llif dŵr
- storio dŵr drwy ddefnyddio a chynnal pyllau, ffosydd, cronfeydd dŵr o fewn argloddiau, sianeli neu ddefnyddio gorlifdiroedd
- atal llif dŵr wyneb drwy blannu lleiniau clustogi o laswellt neu goed.

Byddwn yn cefnogi ffermwyr i gymryd camau a fydd yn helpu i ddiogelu eu fferm rhag llifogydd a lleihau eu heffaith. Mae hyn yn cynnwys:

- casglu dŵr (pyllau)
- osgoi cywasgu ac erydu pridd
- lleiniau clustogi ar lan afonydd
- plannu coed a pherthi i atal llif dŵr wyneb.

Mae'r gweithredoedd hyn eisoes wedi'u cynnwys mewn mannau eraill gan eu bod yn cynnig manteision niferus i fusnes y fferm a'r amgylchedd. Byddwn hefyd yn cefnogi ffermwyr a pherchenogion tir ar sail dalgylch i ddatblygu rhwydwaith o weithredoedd cydgysylltiedig i leihau'r perygl o lifogydd.

(O) Gweithredoedd i reoli llifogydd yn naturiol fel casglu dŵr.

(C) Annog ffermwyr i gydweithredu ar draws y dalgylch i leihau'r perygl o lifogydd. Byddan nhw'n cael eu gwobrwyo am weithredu ar y cyd, gan gynnwys cyflwyno nodweddion fel rhwystrau sy'n gollwng, mannau storio neu blannu coed ar orlifdir.

## 4.3.5 Lles pobl, anifeiliaid a lle

Byddwn yn helpu ffermwyr i hyrwyddo a gwella'u lles yn ogystal â lles eu teuluoedd, eu gweithlu, y gymuned leol a'u da byw. Byddwn yn helpu ffermwyr i gyfoethogi harddwch yr amgylchedd naturiol a rhoi cyfleoedd i bobl ymwneud â diwylliant, tirweddau a threftadaeth cefn gwlad.

**Cynnal a gwella'r amgylchedd, treftadaeth a harddwch hanesyddol**




Mae gan Gymru dirweddau gwledig eithriadol. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi esblygu o ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng dyn a'r tirweddau a'r ecosystemau hynny dros y 10,000 o flynyddoedd diwethaf. Maent yn fannau o harddwch naturiol ac yn rhan werthfawr o'n treftadaeth. O ganlyniad, mae'r nodweddion hanesyddol ar ein ffermdir yn hanfodol i'n cymeriad cenedlaethol, ein hunaniaeth ddiwylliannol a'n heconomi.

**Tirweddau gwarchodedig:** Mae rhai tirweddau yn fwy gwerthfawr a bregus nag eraill ac mae angen eu diogelu er mwyn i bobl heddiw ac yfory allu eu mwynhau. Mae tua chwarter Cymru wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu'n Barc Cenedlaethol. Mae'r rheini'n cynnwys rhai o ardaloedd harddaf a mwyaf trawiadol a dramatig ein cefn gwlad. Maen nhw'n dirweddau o bwys cenedlaethol, wedi'u dynodi gyda'r statws uchaf ar gyfer gwarchod tirwedd.

**Amgylchedd hanesyddol:** Mae ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn stiwardiaid ar yr adnodd pwysig hwn. Bydd y Cynllun yn helpu ffermwyr i gyfrannu'n gadarnhaol at reoli a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r dirwedd, gan gydnabod eu rôl bwysig o ran yr economi wledig, cymunedau a chreu ymdeimlad o le,.

(S) Bydd angen i ffermydd sydd â nodweddion hanesyddol ar eu tir ddilyn y canllawiau cyffredinol ar sut i ofalu amdanyn nhw.

(O) Rhoddir cymorth i ffermwyr i ddarparu cofnod o gyflwr y nodweddion hanesyddol a sut y maen nhw'n cael eu rheoli. Lle bo gofyn, rhoddir cymorth i drwsio neu ddiogelu nodwedd hanesyddol a chyngor proffesiynol.

(O) Rhoddir cymorth i ffermwyr wneud mwy dros dirweddau wedi'u gwarchod. Bydd y gweithredoedd hyn yn rhai arbennig i'r fferm a'i chyffiniau ac yn gyson â rhinweddau arbennig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Barc Cenedlaethol.

(C) Bydd y Cynllun yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd fydd yn gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r dirwedd ddynodedig ar draws nifer o ffermydd.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio'n cynnig cyngor ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Yn ogystal â'u cysylltu ag arbenigwyr, bydd yn cynnwys dysgu am arferion gorau oddi wrth ffermwyr eraill.

### Galluogi pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a mynd iddo



Mae ein cefn gwlad a'n harfordir yn fannau o harddwch naturiol. Mae tirweddau yn rhan werthfawr o'n treftadaeth ac mae treulio amser yn yr amgylchedd naturiol yn hwb i iechyd a lles pobl. Mae'r awyr agored yn cynnig llawer o wahanol weithgareddau sy'n gallu cydfodoli â ffermio, o fod yn gyfrifol. Mae hamddena awyr agored yn dod â manteision sylweddol i economi Cymru ac o les mawr i iechyd. Byddwn yn cefnogi ffermwyr â'r rôl bwysig hon drwy eu helpu i wella hygyrchedd ac i helpu pobl i ymwneud â diwylliant, tirweddau a threftadaeth cefn gwlad. Mae hyn yn cynnwys help i ganiatáu hamddena mewn dyfroedd ar y tir lle bo hynny'n briodol.

(O) Bydd ffermwyr yn gallu dewis opsiynau fydd yn helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a mynd iddo, gan gynnwys:

- gwella llwybrau i'w gwneud yn addas ar gyfer defnyddwyr gwahanol
- gwella llwybrau i'w gwneud yn fwy hygyrch
- cysylltu llwybrau â'i gilydd a chreu llwybrau mynediad newydd
- creu llwybrau newydd
- ymweliadau gofal ac addysgol â'r fferm.

(C) Byddwn yn cefnogi prosiectau cydweithredol i wella mynediad i gymunedau lleol a chefnogi blaenoriaethau cenedlaethol.

### Bywyd o ansawdd da i dda byw



Mae'r ffordd y gofelir am anifeiliaid fferm yn cael effaith fawr ar fusnesau fferm, yr amgylchedd a chymdeithas. Mae safonau lles uchel yn cael eu cynnal ar ffermydd Cymru, ac rydym am fynd â hyn i'r cam nesaf drwy helpu ffermwyr i sicrhau bod eu hanifeiliaid yn byw bywyd o ansawdd da.

Byddwn yn cydnabod ac yn gwobrwyo safonau lles anifeiliaid uchel sy'n ystyried cyflwr corfforol yr anifail yn ogystal â'i les. Mae lles anifeiliaid yn y cyd-destun hwn yn golygu bod anifeiliaid yn cael profi ac yn cael cyfle i brofi amrywiaeth o brofiadau cadarnhaol fyddai'n rhoi 'bywyd da' iddynt. Mae'n fwy na dim ond cael gwared ar bethau sy'n cael effaith negyddol arnynt neu ddiwallu anghenion sylfaenol fel a nodir mewn deddfwriaeth a chodau ymarfer lles.

(O) Rhoddir cymorth i ffermwyr wella safon lles eu hanifeiliaid. Gallai hynny olygu mabwysiadu'r fenter 'Lles Bywyd Da' (neu fenter debyg).

**Buddsoddi mewn pobl i ddarparu gwaith teg a chreu gweithlu sy'n cael ei werthfawrogi**

Byddwn yn cefnogi ffermydd i rymuso eu staff, i fuddsoddi amser ac arian ynddynt ac i fodloni safonau gwaith teg. Mae gwaith teg yn golygu talu cyflog teg i weithwyr, rhoi clust a chynrychiolaeth iddynt, cynnig swyddi sicr a rhoi cyfleoedd am ddyrchafiad mewn amgylchedd iach a chynhwysol sy'n parchu hawliau. Mae gwaith teg yn cyfrannu at dwf a ffyniant cenedlaethol yn ogystal â thaclo anghydraddoldeb, lleihau tlodi a hybu lles. Mae'n helpu i sicrhau economi gryfach, modern a mwy cynhwysol ac yn porthi'n traddodiadau diwylliannol o unoliaeth gymdeithasol a chydlyniant cymunedol.

I fusnesau fferm, mae hefyd yn hysbyseb dda i hyrwyddo eu harferion gwaith moesegol. Mae hyn yn tyfu'n ystyriaeth fwyfwy pwysig ym meddwl cwsmeriaid ac felly byddwn yn helpu ffermwyr Cymru i arwain y ffordd o ran hyrwyddo arferion gwaith da.

(CFf) Bydd Cyswllt Ffermio yn helpu ffermwyr i ddeall manteision buddsoddi yn y bobl sy'n gweithio iddyn nhw. Bydd hynny'n cynnwys:

- deall y gofyn i dalu'r Isafswm Cyflog Amaethyddol
- esbonio pwysigrwydd cael yr hyfforddiant cywir ar gyfer tasgau penodol
- esbonio wrth weithwyr beth yw eu hawliau o ystyried mor unigryw yw'r sector amaeth
- esbonio'r cyfleoedd sy'n cael eu creu o geisio rheoli pobl yn well a manteision hynny i fusnesau o ganlyniad i weithwyr hapusach a mwy cynhyrchiol
- ystyried y cyfleoedd yn y farchnad o hyrwyddo arferion gweithio da.

### Meddu ar y sgiliau i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol




Byddwn yn cefnogi ffermwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyson, fel bod ganddynt y sgiliau a'r hyder i:

- addasu i newidiadau yn y farchnad, yr hinsawdd a thechnolegau
- cynnal gweithredoedd y Cynllun
- rheoli unrhyw risgiau a gwneud eu gwaith yn ddiogel.

Mae pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol ac efallai na fydd yr hyn sy'n addas i un ffermwr yn addas i un arall. Bydd Cyswllt Ffermio yn trefnu dysgu dan arweiniad y ffermwr ar bopeth y mae'r Cynllun yn ymdrin ag ef mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallai hyn gynnwys:

- cyrsiau hyfforddi (ar-lein ac yn bersonol)
- ffermydd arddangos
- mentoriaid
- gweminarau
- grwpiau trafod
- cyngor
- erthyglau.

Rhoddir sylw penodol i'r cymorth sydd ar gael i ffermwyr newydd a byddwn yn ystyried sut i gynnal Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) mwy strwythuredig. Bydd hyn yn adeiladu ar ein pecynnau presennol fel Rhagori ar Bori – pecyn cymorth, wedi'i rannu'n lefelau gwahanol, lle gall ymgeiswyr naill ai ddechrau ar y dechrau neu ymuno â'r pecyn dysgu ar ei hanner, gan dibynnu ar faint o wybodaeth sydd ganddynt.

Rydym am allu cydnabod y cyfan y mae'r ffermwyr yn ei ddysgu, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, drwy Cyswllt Ffermio a chyrff eraill. Yn yr ail gyfnod cyd-ddylunio, byddwn yn ystyried trefn ar gyfer pennu isafswm o oriau neu bwyntiau DPP y flwyddyn i'r ffermwr. Er enghraifft, gwobrwyir ffermwyr am rannu gwybodaeth â ffermwyr eraill a dod yn ffermydd arddangos. Rydym hefyd am ystyried a allwn, yn y tymor hir, fabwysiadu dull tebyg ar gyfer contractwyr tir.

Rydym yn gobeithio o allu nodi a rheoli risgiau'n briodol, ynghyd â dysgu ac ennill sgiliau o lefel uchel, y bydd ffermwyr yn gallu:

- gwneud mwy o elw
- rheoli eu perfformiad amgylcheddol mewn ffordd gadarnhaol
- gwella iechyd a lles anifeiliaid
- gwella safonau iechyd a diogelwch.

(S) Bydd gofyn i ffermwyr gwblhau lefel ofynnol o waith dysgu, gan gynnwys mewn Iechyd a Diogelwch.


(O) Bydd ffermwyr sydd am wneud mwy yn cael help i ddilyn DPP cymhlethach neu o lefel uwch. Byddan nhw hefyd yn cael eu gwobrwyo am drosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr eraill.

PENNOD 5

# Proses y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Mae'r bennod hon yn disgrifio'r broses ar gyfer ymuno â'r Cynllun ac yn esbonio beth y bydd gofyn i ffermwr ei wneud.**

## Cofrestru a pharatoi'r contract




## 5.1 Cofrestru fel Ffermwr a'r Meini Prawf ynghylch pwy sy'n gymwys

Bydd ffermwyr sydd am gynnal Adolygiad o Gynaliadwyedd ac ymuno â'r Cynllun yn cofrestru trwy RPW Ar-lein.

I fod yn gymwys am yr haenau Sylfaenol ac Opsiynol, rydym yn cynnig defnyddio'r meini prawf canlynol:

- byddwch yn ffermwr sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol

- rhaid cynnal o leiaf y Gweithredoedd Sylfaenol perthnasol gydol cyfnod y contract
- rhaid i'r tir amaethyddol fod yng Nghymru
- rhaid ffermio o leiaf 3 hectar o dir amaethyddol cymwys.

Bydd angen i ffermwyr barhau'n gymwys gydol eu Contract a bydd gofyn iddynt ailgadarnhau hynny o bryd i'w gilydd.

Bydd meini prawf ar wahân i fod yn gymwys am haen Gydweithredol y Cynllun gan y bydd angen o bosibl i ffermwyr, rheolwyr tir, ac eraill nad ydynt yn perthyn i'r Cynllun gymryd rhan mewn prosiectau ar y cyd. Ond bydd angen i o leiaf ddau ffermwr fod yn rhan o'r Cynllun i gynnal prosiect cydweithredol.

Bydd pob ffermwr yn gallu cael help Cyswllt Ffermio.

Byddwn yn archwilio'r meini prawf hyn ymhellach yn ystod yr ail gyfnod cyd-ddylunio er mwyn sicrhau nad ydym yn cadw ffermwyr allan o'r Cynllun a allai gynnal, o leiaf, y Gweithredoedd Sylfaenol.

## 5.2 Adolygiad o Gynaliadwyedd

Bydd gofyn i bob busnes fferm gwblhau Adolygiad o Gynaliadwyedd cyn ymuno â'r Cynllun.

Bydd yr Adolygiad o Gynaliadwyedd yn asesu'r fferm gyfan o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Caiff ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer ymuno â'r Cynllun a bydd yn offeryn y gall ffermwr ei ddefnyddio i adolygu, cymharu a gwella perfformiad ei fferm yn y dyfodol.

Datblygwyd yr Adolygiad o Gynaliadwyedd gyda'r egwyddorion canlynol mewn golwg, gyda'r bwriad o:

- **fod o fudd i'r ffermwr,** gan ddarparu data sy'n dystiolaeth o'i arferion ffermio cynaliadwy er mwyn iddo allu mesur a chymharu ei berfformiad â'i berfformiad ei hun ac â pherfformiad eraill. Dylai hefyd nodi'r meysydd sydd angen eu gwella a helpu i ddangos tystiolaeth o arferion da at ddibenion brandio a marchnata.
- **casglu dim ond y data 'sydd eu hangen'** gan roi syniad clir o sut y caiff y data eu defnyddio i gynhyrchu adroddiadau ar ganlyniadau SLM; y Cynllun; a gweithredoedd.
- **adeiladu ar systemau cyfredol ac offer y diwydiant** lle y bo'n briodol gan ystyried gwerth am arian a'r angen iddo fod yn barod mewn pryd.
- **gallu ei gwblhau heb fawr o gymorth** a bod yn gymesur i faint, math a chymhlethdod busnes y fferm
- **lleihau biwrocratiaeth i'r ffermwr,** gan gasglu gwybodaeth unwaith a'i hailddefnyddio lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys llenwi gwybodaeth ymlaen llaw yn yr Adolygiad o Gynaliadwyedd ac ailddefnyddio gwybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru eisoes i leihau'r baich gweinyddol. Lle bo'n bosibl, dylai'r Adolygiad adlewyrchu Cynlluniau Gwarant Ffermydd a gofynion manwerthwyr er mwyn rhoi mantais y gellir ei marchnata i ffermwyr Cymru.
- **helpu'r ffermwr i ddeall sut i Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)**
- **sicrhau bod pawb yn ddigidol, i leihau cost.**

Ar sail yr egwyddorion hyn, rydym yn cynnig bod yr Adolygiad o Gynaliadwyedd yn cynnwys cyfres o fodiwlau. Gyda'i gilydd byddant yn rhoi darlun cyflawn o gynaliadwyedd y fferm. Mae'n debygol y bydd y modiwlau hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth sylfaenol am y fferm a'r tir (fel Ffurflen y Cais Sengl)
- Asesiad Carbon
- Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Mae ffermwyr yng Nghymru yn defnyddio gwahanol fathau o offer eisoes a byddwn yn gweithio gyda ffermwyr, y diwydiant a chyrff ardollau i gadarnhau eu bod yn briodol. Gobeithio y bydd hyn yn lleihau baich ffermwyr drwy ddefnyddio offer cyfarwydd sydd ar gael yn rhwydd, sy'n addas i'r diben, ac sy'n casglu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i'r ffermwr wneud y gorau o'i botensial amgylcheddol ac economaidd.

Byddwn yn ystyried sut i wneud yr Adolygiad o Gynaliadwyedd yn gymesur â maint a chymhlethdod busnes y fferm. Gan ddefnyddio'r dull hwn, y gobaith yw bydd ffermwyr yn gallu cwblhau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd eu hunain ar-lein, gyda chymorth yn cael ei gynnig yn ôl yr angen. Efallai y bydd angen mwy o arbenigedd ar rai elfennau, er enghraifft yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Bydd angen meddwl felly sut y gallwn helpu ffermwyr i'w cynnal yn ddigon cywir. Mae llawer o ffermydd eisoes yn defnyddio'r offer hyn am eu bod, er enghraifft, eisoes yn ofyn gan y manwerthwyr neu'r proseswyr y maent yn gwerthu cynnyrch iddynt. Bydd ffermwyr eraill yn anghyfarwydd ag offer o'r fath. Felly, bydd lefel y cymorth a gynigiwn i helpu ffermwyr i gwblhau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd yn amrywio yn ôl eu hanghenion. Gellid cynnig y cymorth hwn ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Canlyniadau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd fydd sylfaen y broses benderfynu a'r broses dewis gweithredoedd (sy'n cael eu trafod yn yr adran nesaf).

Hyd yn oed os bydd fferm yn dewis peidio ag ymuno â'r Cynllun, yn ein barn ni bydd cwblhau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd yn dal yn fanteisiol i fusnes y fferm. Rydym felly'n annog pob fferm yng Nghymru i gwblhau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd.

Bydd y data a gesglir fel rhan o'r Adolygiad o Gynaliadwyedd yn cael eu cyfuno gan Lywodraeth Cymru i ddarparu data am gynaliadwyedd y diwydiant, gan roi'r dystiolaeth i gefnogi ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd sector ffermio Cymru, yn ogystal â darparu llinell sylfaen ar gyfer monitro SLM. Gall y ffermwr hefyd ddefnyddio'r data i ddangos i gwsmeriaid a manwerthwyr fanylion cynaliadwyedd eu fferm.

Caiff yr Adolygiad o Gynaliadwyedd ei ailgynnal ar ddiwedd pob cyfnod contract er mwyn gweld unrhyw gynnydd ac i ddangos tystiolaeth o'r hyn sydd wedi'i wneud. Bydd yn cynnig llinell sylfaen newydd ar gyfer cyfnod nesaf y contract.

Byddwn yn archwilio rhannau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd yn fanylach fel rhan o'r ail gyfnod cyd-ddylunio.

## 5.3 Dewis Gweithredoedd

Bydd canlyniadau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd yn helpu'r ffermwr i benderfynu pa weithredoedd (Sylfaenol, Opsiynol a/neu Gydweithredol) sy'n addas ac yn fwyaf priodol ar gyfer ei fferm a'i arferion ffermio.

Er bod cynnal y Gweithredoedd Sylfaenol yn amod gorfodol, bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut i'w cynnal. Er enghraifft, bydd disgwyl i ffermwyr gynnal gwaith rheoli neu greu cynefin ar o leiaf 10% o'u ffermdir ond gellir dewis creu coridorau bywyd gwyllt mewn cae, stribedi pryfed peillio, cloddiau chwilod neu weirgloddiau traddodiadol i gyrraedd y targed hwn. Yn y rhan hon o'r broses y bydd ffermwyr yn ystyried yr opsiynau hyn wrth wneud penderfyniad.

Yn y cam hwn, bydd ffermwyr yn cael gwybod pa daliad a chymorth fydd yn cael eu rhoi iddynt am gynnal gweithredoedd a pha gyfleoedd sydd ar gael iddynt, naill ai drwy wneud mwy a chynnal Camau Opsiynol ychwanegol, neu er enghraifft, drwy gydweithio ag eraill ar raddfa tirwedd.

Mater i'r ffermwr fydd dewis faint o Weithredoedd Opsiynol ychwanegol i'w cynnal, pa gymorth a chyngor technegol sydd eu hangen i'w helpu i gymryd y camau mwy cymhleth neu anodd hyn, a pha daliad y bydd yn ei gael am eu cynnal. Bydd y camau opsiynol sydd ar gael yn dibynnu ar y gyllideb ac efallai y byddant ar gael ar wahanol adegau o gyfnod y contract.

Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu system ar-lein i helpu'r ffermwr i ddeall yr opsiynau hyn. Rydym wrthi'n meddwl sut i'w gwneud mor syml a hawdd ei defnyddio â phosibl. Rydym yn defnyddio'n profiad o brosiectau eraill i ddeall rôl cynghorwyr a hwyluswyr i helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau unigol a chydweithredol. Rydym hefyd yn ystyried y ffordd orau o integreiddio unrhyw gymorth technegol sydd ei angen i gynnal y gweithredoedd ar y fferm.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant RPW Ar-lein a'i gymwysiadau geo-ofodol, gan gynnwys y Ffurflen Cais Sengl a'r Cynllluniau Grant Bach. Y gobaith yw dangos y cyfleoedd sydd ar gael i'r ffermwr, o ran enillion ariannol a chanlyniadau amgylcheddol.

Rydym am adeiladu system gwbl integredig sydd hefyd yn cyfeirio ffermwyr at gyngor a chymorth pellach os oes eu hangen.

Bydd y broses Dewis Gweithredoedd yn cynnwys:

- adolygu'r Gweithredoedd Sylfaenol perthnasol yn ôl y math o fferm a'r tir a nodweddion y dirwedd
- nodi'r camau y gallai pob fferm eu cymryd yn ychwanegol at yr haen Sylfaenol
- ystyried pa gymorth sydd ei angen ar y ffermwr i gynnal y gweithredoedd
- cyfeirio at gymorth technegol ac arbenigedd ychwanegol a/neu gymorth ariannol.

Mewn ymgynghoriadau blaenorol, gwnaethom gynnig bod ffermwyr yn datblygu Cynllun Cynaliadwyedd y byddai'r cynghorydd a'r ffermwr yn cytuno arno. Cawsom adborth y byddai'n creu lefel ychwanegol o fiwrocratiaeth, yn gofyn am fewnbwn allanol ac y gallai fod yn gostus i ffermwr ei ddatblygu. Felly, rydym yn cynnig bod ffermwyr yn cael dewis llunio cynllun, gan ddibynnu ar eu penderfyniadau. Os ydynt am ofyn am gyngor, croeso iddynt wneud hynny ond ni fydd yn orfodaeth arnynt.

## 5.4 Y Contract

Bydd y contract yn disgrifio'r Gweithredoedd Sylfaenol ac Opsiynol y bydd y ffermwr wedi cytuno eu cynnal a'r taliadau y bydd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w talu yn gyfnewid am hynny. Bydd yn cynnwys y gwaith monitro y bydd yn ofynnol i'r ffermwr ei wneud a pha dystiolaeth y bydd angen ei chyflwyno er mwyn cael taliad.

Ein bwriad yw bod contractau'n para hyd at bum mlynedd o'r dyddiad y bydd y ffermwr yn ymuno â'r Cynllun. Efallai y bydd modd newid y contract os cyfyd amgylchiadau na chawsant eu rhagweld neu er mwyn i ffermwyr sydd am wneud hynny gynnal Camau Opsiynol ychwanegol, gan

ddibynnu ar faint o arian fydd ar gael. Byddwn yn ystyried sut i wneud hon yn broses deg a thryloyw. Bydd y canllawiau ynghylch pryd a beth y caniateir eu newid yn y contract yn cael eu disgrifio yn Rheolau'r Cynllun.

Rydym wedi llunio'r Cynllun i weithredu fel rhaglen dreigl bum mlynedd gyda chontractau'n cael eu hadolygu a'u cytuno ar ddechrau pob cyfnod i adlewyrchu digwyddiadau allanol neu unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cynllun.

Rydym yn sylweddoli y gall tenantiaethau amrywio o ran hyd, a byddwn yn ceisio caniatáu hyblygrwydd ar gyfer unrhyw denantiaeth sy'n dod i ben cyn diwedd cyfnod y contract.

Mae'n debygol y caiff Gweithredoedd Cydweithredol eu trafod ar wahân oherwydd eu natur. Byddwn yn gweithio ar fanylion hyn wrth i ni ddatblygu ein cynigion.

## Cynnal y Contract

**Cynnal Gweithredoedd**
Bydd y ffermwr yn cynnal y gweithredoedd a ddisgrifir yn y contract ac yn cyflwyno tystiolaeth

↓

**Monitro'r Contract**
Bydd RPW yn edrych ar y dystiolaeth ac yn rhoi help i reoli'r contract

↓

**Y Drefn Archwilio**
Bydd RPW yn cadarnhau bod y ffermwr yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheolau'r Cynllun

↓

**T liad**
Bydd RPW yn trefnu taliadau am Weithredoedd Sylfaenol ac Opsiynol ar ôl edrych ar y dystiolaeth a chynnal yr archwiliadau cydymffurfio

## 5.5 Rheolau'r Cynllun

Cyhoeddir Rgeolau'r Cynllun a fydd yn esbonio sut y bydd y Cynllun yn gweithio. Bydd y ffermwr yn ymrwymo i gontract gyda Llywodraeth Cymru a bydd angen iddo gydymffurfio â'r rheolau hyn er mwyn cael taliad a chymorth. Bydd y rheolau'n cwmpasu ystod eang o feysydd (yn debyg i lawlyfr y SAF) y bydd angen eu monitro, eu harchwilio a'u gorfodi, gan gynnwys:

- pwy sy'n gymwys
- beth sy'n digwydd pan gaiff tir ei brynu neu ei werthu yn ystod cyfnod y contract
- monitro bod y gweithredoedd yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn
- cydymffurfio â'r llinell sylfaen reoleiddiol ynghyd â'r broses ar gyfer delio ag achosion o dorri rheolau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu reolau'r Cynllun, gan gynnwys unrhyw gosbau.
- cyfnod y contract a newid trefniadau'r contract
- pa weithgareddau amaethyddol fydd yn cael eu cefnogi a beth fydd yn cael ei eithrio.

## 5.6 Taliad

Bydd y taliad yn cymell ac yn gwobrwyo'r ffermwr am eu gweithredoedd i sicrhau canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol.

Bydd y taliad yn gwobrwyo'r ffermwyr hynny sy'n ffermio'r tir mewn ffordd gynaliadwy ac yn tynnu sylw at y cyfraniadau cadarnhaol y maent wedi'u gwneud.

Bydd cyfraddau talu yn ystyried ffactorau y tu hwnt i'r model 'cost a ysgwyddir a'r incwm a gollwyd', ac yn cydnabod gwerth cymdeithasol y canlyniadau. Bydd y taliad hwn yn rhoi incwm teg a sefydlog i ffermwyr am y gwaith y maent yn ei wneud wrth gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Rydym wrthi'n gwneud gwaith modelu helaeth i'n helpu i benderfynu ar gyfraddau talu'r Cynllun. Er mwyn datblygu llinell sylfaen, bydd angen i ni ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys y canlyniadau y bydd y gweithredoedd yn eu sicrhau, y gost i'r ffermwr o'u cynnal, ynghyd ag unrhyw gymhelliant fydd ei angen i annog pobl i gymryd rhan.

Gallwn newid y ffordd y mae taliadau'n cael eu trefnu ar gyfer y Camau Opsiynol. Gallent fod ar ffurf grantiau cyfalaf neu daliadau refeniw mwy penodol sy'n canolbwyntio ar weithredu.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gapio taliadau i sicrhau bod y cyllid yn cael ei rannu'n deg.

Bydd yr arian ar gyfer yr haen hon o'r Cynllun yn dibynnu ar faint y gyllideb gyffredinol ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio (gweler Pennod 6).

Bydd opsiynau talu posibl yn cael eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun terfynol yn 2023 unwaith y byddwn wedi ystyried canfyddiadau'r ail gyfnod cyd-ddylunio a chanlyniadau'r gwaith modelu.

## 5.7 Monitro a Chadarnhau

Byddwn yn defnyddio dulliau gwahanol o fonitro ffermydd ac i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio, gan gynnwys:

- hunan-fonitro, heb fod angen cynghorydd
- ailddefnyddio data sydd eisoes wedi'u casglu gan ffermwyr
- annog technoleg newydd, fel apiau ffonau symudol, a all leihau'r baich archwiliadau ar ffermwyr
- data lloeren a synhwyro o bell.

Byddwn am rannu'r data a gasglwn â'r ffermwr a'r diwydiant ehangach (yn ddienw) lle gall hynny ychwanegu gwerth:

- bydd ffermwr yn cael gweld 'dangosfwrdd' (cynrychiolaeth o ddata perthnasol yr unigolyn) sy'n dangos perfformiad y fferm a'r hyn y maent yn ei gyflawni yn unol â'r canlyniadau
- byddwn yn cyfuno data ar lefel y diwydiant ac yn eu cyflwyno i'r ffermwr yn ddienw fel y gall gymharu ei hun ag eraill yn hawdd
- byddwn yn sicrhau bod data dienw ar lefel diwydiant ar gael i'r byd academaidd i lywio gwyddoniaeth amaethyddol a helpu i wneud ffermydd yn fwy effeithlon a chynaliadwy
- byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar sut mae'r ffermydd yn y Cynllun yn datblygu ac yn defnyddio'r dystiolaeth a gesglir gennym i ddangos pa mor gynaliadwy ydynt.

## 5.8 Trefn Archwilio

Bydd archwiliadau'n seiliedig ar risg a thystiolaeth i dargedu'r ffermydd a'r gweithgareddau hynny sy'n cynrychioli risg uwch. Cynhelir rhai archwiliadau ar hap.

Byddwn yn ystyried sut y gall ffermwyr ddefnyddio cydnabyddiaeth ar sail perfformiad, naill ai drwy berfformiad cadarnhaol yn y gorffennol, neu drwy aelodaeth o Gynlluniau Gwarant ac Ardystio Ffermydd (organig ardystiedig, FAWL, CHeCS ac ati).

Nid ydym am gosbi ffermwr sydd wedi cydymffurfio â'r Cynllun, ond bod ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth wedi effeithio ar y canlyniadau. Byddwn yn gweithio gyda'r ffermwr i drechu problemau, unioni canlyniadau anfwriadol, neu addasu arferion er mwyn adlewyrchu'n well y camau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau.

## 5.9 Cosbau

Er y byddwn yn helpu ffermwyr i osgoi torri rheolau'r Cynllun neu anghydymffurfio â chontract y Cynllun, rhaid sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddiogelu rhag achosion o dwyll a niwed i'w enw da. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yn cael gwerth eu harian ac i ddiogelu'r ffermwyr hynny yn y Cynllun rhag cael eu cysylltu ag unrhyw ymddygiad negyddol a allai niweidio eu brand neu'u delwedd.

Am beidio â chynnal gweithred fel y nodir yn y contract; byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad i ffermwyr ar sut i gywiro mân broblemau ac yn rhoi amser iddynt gywiro'u gweithredoedd yn dilyn archwiliad.

Mewn amgylchiadau lle teimlir bod angen cosbau ariannol; bydd cosbau'n gymesur â'r methiant i gynnal gweithredoedd y Cynllun, unrhyw ddifrod posibl a achosir neu achos o dorri Rheolau'r Cynllun. Bydd rhai arferion yn torri pob o'r rhain.

Bydd cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd ac â'r fframwaith deddfwriaethol yn rhan o Reolau'r Cynllun. Bydd peidio â chydymffurfio yn golygu torri Rheolau'r Cynllun ac rydym yn cadw'r hawl i roi cosb gymesur.

Fel ar hyn o bryd, bydd proses apelio annibynnol ar gael i ffermwyr allu herio unrhyw benderfyniad gan RWP. Mae'r broses apelio yn sicrhau bod trefniadau teg, syml, fforddiadwy a thryloyw ar gyfer codi pryderon ac adolygu penderfyniadau.

Byddwn yn datblygu cynllun pontio ar gyfer symud o'r model presennol o gosbau trawsgydymffurfio a BPS i fodel cosbi newydd symlach a mwy cefnogol.

## 5.10 Adroddiadau a Gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r wybodaeth fydd wedi'i chasglu fel rhan o'r gwaith monitro yn ein helpu i gloriannu pa mor dda y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu. Gellir defnyddio'r wybodaeth honno i wella'r Cynllun, gan newid gofynion y Cynllun os oes angen, cynyddu lefel y cymorth technegol a gynigir neu leihau'r baich gweinyddol i ffermwyr.

PENNOD 6

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Y Cynllun Pontio

**Mae'r bennod hon yn esbonio'r polisi cyfredol ar sut i gefnogi ffermwyr yn y cyfnod cyn lansio'r Cynllun ac ar ôl hynny. Rydym wedi'i rannu'n ddau – y Cyfnod Paratoi a Threialu (2022-2024) a'r Cyfnod Pontio (2025-2029). Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion hyn yn 2023.**

## 6.1 Cyfnod Paratoi a Threialu (2022–2024)

Rydym eisoes wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd tan ddiwedd 2023 gyda pharhad y BPS a Glastir ac, yn fwy diweddar, drwy gyhoeddi fframwaith ariannu i gefnogi'r economi wledig a'r newid i'r Cynllun dros y tair blynedd ariannol nesaf.

Rydym am ddefnyddio'r amser hwn i baratoi ffermwyr i fod yn y sefyllfa orau i ymuno â'r Cynllun ac o ran cynnal y Gweithredoedd Sylfaenol a gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. Rydym hefyd am dreialu elfennau o'r Cynllun, i brofi eu bod yn ymarferol a llywio'r broses y byddwn yn penderfynu arni. Mae'n hanfodol hefyd ein bod yn defnyddio'r amser hwn i barhau i sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol.

### Paratoi ffermwyr

Y cyhoeddiad hwn yw cam cyntaf ein cyfnod paratoi. Wrth baratoi ffermwyr, rydym am ddeall eich barn a'ch syniadau am y Cynllun. Dyna pam yr ydym yn lansio ail gyfnod cyd-ddylunio yr un pryd.

Bydd nifer o ffyrdd o gymryd rhan yn y cam cyd-ddylunio. Bydd ffermwyr yn cael cyfle i drafod gweithredoedd y Cynllun yn fanwl ac awgrymu newidiadau neu welliannau i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn gyraeddadwy. Byddwn hefyd yn ystyried nifer o themâu, fel tenantiaethau, i sicrhau ein bod yn deall effaith bosibl cynigion y Cynllun ar ffermwyr mewn sefyllfaoedd penodol.

Defnyddir yr adborth a ddaw i law yn y cyfnod cyd-ddylunio i helpu i fireinio ein cynigion cyn i ni gynnal ymgynghoriad ar y Cynllun terfynol yn 2023.

Os hoffech gymryd rhan, cewch ddatgan eich diddordeb yma – Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru[4].

Mae gwaith ar y gweill hefyd i gynllunio cyfres o brosiectau i helpu ffermwyr sydd am ymuno â'r Cynllun, a rhoi'r wybodaeth, y sgiliau, yr offer a'r dechnoleg iddynt i wneud y gorau o'u gallu i gynnal y Gweithredoedd Sylfaenol. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaeth Cyswllt Ffermio wedi'i ailwampio i baratoi ffermwyr ar gyfer y Cynllun.

4 www.gov.wales/co-design-sustainable-farming-scheme-wales

Bydd ar gael i bob ffermwr, p'un a fydd yn ymuno â'r Cynllun yn y pen draw neu beidio, i wella'i sgiliau ac i broffesiynoli'r sector.

Bydd y rhaglen hon yn cynnwys cymorth a chyngor technegol, rhannu gwybodaeth rhwng ffermwyr a mewnwelediad i'r farchnad. Bydd hefyd yn darparu elfennau pwrpasol sy'n ymwneud â'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio yn y ddogfen hon. Bydd yr elfennau newydd hyn yn cyfuno i gynnal gweithgarwch penodol i gynyddu gwybodaeth a gwella gallu ffermwyr i sicrhau canlyniadau SLM.

### Prosesau Treialu

Rydym am brofi rhai elfennau o'r Cynllun gyda ffermwyr cyn gynted â phosibl. Yn benodol, byddwn yn cynnal prosiectau i archwilio'r prosesau, y methodolegau a'r dulliau gweithredu a gyflwynir ym Mhennod 4. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sut ydym am gefnogi ffermwyr i gynnal Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd. Byddai cynllun peilot yn fodd inni ddeall pa offer fyddai orau, pa ddata sydd angen eu casglu, cywirdeb y wybodaeth a gesglir, a'r arbenigedd sydd ei angen. Bydd deall yr holl elfennau hyn yn well yn ein helpu i weld a ydyn nhw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ffermwyr i wneud penderfyniadau at y dyfodol (er enghraifft, creu cynefinoedd yn y 'lle iawn'). Bydd allbynnau'r treialon hyn yn ein galluogi i fireinio a newid y Cynllun lle bo angen.

### Sicrhau Canlyniadau

Mae nifer o brosiectau eisoes yn cael eu cynnal i sicrhau canlyniadau SLM. Byddwn yn dal ati i gynnal y prosiectau hyn yn ystod y cyfnod Paratoi a Threialu. Yn eu plith y bydd prosiectau:

- creu coetir
- Rheoli Llifogydd yn Naturiol
- adfer cynefinoedd bioamrywiol llawn carbon fel mawnogydd
- rheoli'n gynaliadwy ac adfer cynefinoedd blaenoriaeth a lled-naturiol
- uno tiroedd mynediad agored ar ffermdir a choetir
- cysylltu tirweddau hanesyddol a gwarchodedig er mwynhad pobl a chymunedau.

Mae llawer o'r prosiectau hyn yn gofyn am arferion ffermio cynaliadwy, a byddan nhw hefyd yn paratoi ffermwyr i ymuno â'r Cynllun.

## 6.2 Y Cyfnod Pontio (2025–2029)

Rydym eisoes wedi nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod pontio. Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi sefydlogrwydd sydd mawr ei angen ar ffermwyr ac yn osgoi rhoi ffermwyr ar ymyl unrhyw ddibyn ariannol oherwydd, er mwyn sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol, rhaid wrth fusnesau fferm sy'n economaidd gynaliadwy. Rydym hefyd am annog a chymell ffermwyr i ymuno â'r Cynllun er mwyn inni allu dechrau Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

### Sefydlogrwydd

Er nad oes gennym sicrwydd cyllidebol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2024-25 a bydd cynllunio dros y cyfnod pontio yn dibynnu ar setliadau ariannu yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi ffermwyr drwy gydol y cyfnod pontio ac wrth i ni ddod â'r BPS i ben. Bydd hyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2029.

Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw ffermwr ar ymyl unrhyw ddibyn ariannol hyd yn oed os bydd yn dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun.

Er ein bod yn rhoi amser i ffermwyr addasu eu modelau ac arferion busnes, rydym am eu hannog i gymryd rhan yn y Cynllun yn ystod y cyfnod pontio hwn er mwyn sicrhau'r canlyniadau SLM. Byddwn yn cynnig cymhellion i ffermwyr i ymuno â'r Cynllun yn ystod y cyfnod pontio. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun yn cael o leiaf y lefel o gymorth ariannol y bydden nhw wedi'i gael pe baen nhw wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun. Cynigir hyn gydol y cyfnod pontio.

## Ymgynghoriad yn y Dyfodol

Yn 2023, byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein cynlluniau manwl ar gyfer y cyfnod pontio gan gynnwys sut i ymdrin â thaliadau sefydlogrwydd a sut i'w lleihau dros y cyfnod pontio. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein cynlluniau i gymell ffermwyr i ymuno â'r Cynllun.

# Atodiad 1: Enghraifft o weithredoedd Sylfaenol ac Opsiynol ar fferm ddefaid ac eidion




**Bydd y cynllun yn golygu cynnal amrywiaeth o weithredoedd Sylfaenol, Opsiynol a Chydweithredol. Gallai gweithredoedd ar fferm ddefaid ac eidion gynnwys y canlynol:**

1. Gwella mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o ledaenu clefydau da byw.
2. Gwella perfformiad da byw trwy ddefnyddio Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.
3. Cynnal profion pridd i wneud y defnydd gorau o wrtaith a lleihau dŵr ffo.
4. Rheoli cynefinoedd a chreu rhai newydd.
5. Cynnal hunanasesiad unwaith y flwyddyn i wella perfformiad busnes y fferm.
6. Rheoli coetir, perthi/gwrychoedd ac amaeth-goedwigaeth a chreu rhai newydd.
7. Rheoli nodweddion yr amgylchedd hanesyddol.
8. Rheoli neu greu pyllau parhaol a thymhorol er lles bywyd gwyllt a da byw ac i gadw dŵr
9. Creu cyfleoedd i bobl pobl ymwneud ag amgylchedd y fferm a mynd iddo.*
10. Gosod offer cynaeafu dŵr i ddiogelu a chadw dŵr.*

*Gweithredoedd Opsiynol

# Atodiad 2: Enghraifft o weithredoedd Sylfaenol ac Opsiynol ar fferm odro




**Bydd y cynllun yn golygu cynnal amrywiaeth o weithredoedd Sylfaenol, Opsiynol a Chydweithredol. Gallai gweithredoedd ar fferm odro gynnwys y canlynol:**

1. Gwella perfformiad da byw trwy ddefnyddio Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.
2. Defnyddio llai o blaladdwyr trwy reolaeth integredig ar blâu.
3. Plannu cnwd gorchudd aml-rywogaeth i leihau erydiad ar bridd moel yn y gaeaf.
4. Rheoli neu greu pyllau parhaol a thymhorol er lles bywyd gwyllt a da byw ac i gadw dŵr.
5. Cwblhau lefel ofynnol o waith dysgu, fel Iechyd a Diogelwch.
6. Rheoli nodweddion yr amgylchedd hanesyddol.
7. Cynnal hunanasesiad unwaith y flwyddyn i wella perfformiad busnes y fferm.
8. Creu lleiniau clustogi ar hyd glannau cyrsiau dŵr i leihau'r risg o lygredd.*
9. Lleihau allyriadau amonia trwy storio slyri'n well a gwasgaru slyri'n fanwl gywir.*
10. Gwella gwerth y borfa trwy borfeydd cymysg a phori cylchdro.*

* Gweithredoedd Opsiynol

# Atodiad 3: Gweithredoedd Sylfaenol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy Bras

Bydd disgwyl i ffermwyr gynnal y Gweithredoedd Sylfaenol i gael y taliad sylfaenol

## Ffermydd Cydnerth a Chynhyrchiol

### Rheoli a gwella perfformiad y fferm trwy fesur a monitro

- Bydd pob ffermwr yn cynnal hunanasesiad unwaith y flwyddyn ar sail dangosyddion perfformiad allweddol y sector a'r diwydiant.

### Lleihau'r risg o ddal a lledaenu clefydau

- Bydd gan bob fferm y mesurau bioddiogelwch angenrheidiol yn eu lle.

## Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maethynnau a gwastraff

### Gwneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial trwy reoli maethynnau a phrofi'r pridd

- Cynnal profion wrth ymuno â'r Cynllun ac adeg adnewyddu'r contract, i gynnwys cyfuniad o:
  - brofion Nitrogen (N), Potasiwm (P), Ffosfforws (K), Carbon a pH
  - mesurau biolegol e.e. eDNA, resbiradu, cyfrif rhywogaeth 'brocsi' (mwydod)
  - asesiad ffisegol e.e. cyfradd ymdreiddio, pwysau'r pridd neu Werthusiad Gweledol o Strwythur y Pridd (VESS).
- Cyfrif maethynnau a chasglu tystiolaeth ynghylch N, P, K ,C a pH.

### Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr trwy reolaeth integredig ar blâu

- Casglu a chofnodi data defnyddio Cynnyrch Diogelu Planhigion.
- Cynnal asesiad IPM.
- Derbyn y cymorth penodol a gynigir.

## Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon

### Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)

- Cynnal gweithredoedd fydd wedi'u nodi gyda chymorth y milfeddyg, trwy Gylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.
- Cyfrif a chofnodi faint o wrthfiotigau a ddefnyddir ar y fferm ar gyfartaledd.

### Adfer mawnogydd lled-naturiol

- Os oes ganddo fawnog, rhaid i'r ffermwr ei rheoli'n briodol.

### Rheoli amaeth-goedwigaeth a choetir a chreu rhai newydd

- Cadw o leiaf 10% o'r fferm o dan goed. Dylai gael ei reoli yn unol â **Safon Goedwigaeth y DU**.
- Rheoli perthi/gwrychoedd hen a newydd yn unol â'r cylch rheoli perthi.

## Diogelu a gwella ecosystem y fferm

### Diogelu pridd rhag erydu a dirywio

- Plannu cnwd gorchudd gyda sawl rhywogaeth ar unrhyw dir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf.

### Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau; Cynnal a chreu cynefinoedd

- Bydd angen i ffermwyr fynd ati i neilltuo o leiaf 10% o'u tir i gynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol. Os nad oes digon o gynefin lled-naturiol, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd ar gyfer creu cynefin parhaol neu dros-dro ar dir amaethyddol.

### Diogelu a chadw dŵr: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol

- Bydd yn rhaid i ffermwyr adfer a rheoli pyllau bywyd gwyllt parhaol a/neu greu nifer o byllau dros dro.

## Lles pobl, anifeiliaid a lle

### Cynnal a gwella amgylchedd, treftadaeth a harddwch hanesyddol

- Bydd angen i ffermydd sydd â nodweddion hanesyddol ar eu tir ddilyn y canllawiau cyffredinol ar sut i ofalu amdanyn nhw.

### Meddu ar y sgiliau i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol

- Bydd gofyn i ffermwyr gwblhau lefel ofynnol o waith dysgu, gan gynnwys mewn Iechyd a Diogelwch.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru WG45234 Argraffu ISBN 978-1-80364-472-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg